RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
79/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
01/08/2023

# Ystyried sut i ddeall teimladau trigolion ym maes Twristiaeth

© Hawlfraint y Goron

ISBN digidol 978-1-83504-446-9

Teitl: Ystyried sut i ddeall teimladau trigolion ym maes Twristiaeth

Awdur(on): Abigail Gascoyne

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad:  Gascoyne, Abigail (2023). *Ystyried sut i ddeall teimladau trigolion ym maes Twristiaeth* . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 79/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ystyried-sut-i-ddeall-teimladau-trigolion-ym-maes-twristiaeth

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Phil Nelson
Adran: Visit Wales, CST
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn:
E-bost: tourismresearch@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Cyflwyniad....2
Adran 1: Adolygiad o Lenyddiaeth....5
Crynodeb....5
Damcaniaethau....7
Dull....23
Casgliad....28
Adran 2: Astudiaeth Achos....29
Crynodeb....29
Cyflwyniad....29
Nodau strategol VISITFLANDERS....31
Arolygon Trigolion....34
Enghreifftiau o Ymgysylltu â Thrigolion....39
Crynodeb....42
Adran 3: Cyfweliadau â rhanddeiliaid....44
Manylder data....44
Addasu....46
Meincnodi....47
Rhoi gwybod am ddata....47
Natur data....48
Ymgysylltu â thrigolion....49
Crynodeb....49
Cyfeiriadau....51

Tabl 1(Prayag et al. 2013, p. 635) 12
Tabl 2 (Rua 2020, p.169) ........................................................................................14
Tabl 3 daw'r ffigurau o Hadinejad et al. (2019)........................................................15
Tabl 4 (Boley a McGehee 2014)...............................................................................20
Tabl 5 (Neuts et al. 2021) ........................................................................................23

Ffigur 1Mae'r Goeden Linden yn esbonio gweledigaeth VisitFlanders ar gyfer cyrchfan sy'n ffynnu. ....... 32
Ffigur 2 postiad o dudalen Ask Antwerp ar Facebook ....... 39

**Cyflwyniad**
Ar ddechrau 2020, cyhoeddodd Croeso Cymru ddogfen strategol Croeso i Gymru sy'n nodi'r blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr rhwng 2020 a 2025. Yn y ddogfen hon mae Croeso Cymru yn nodi ymrwymiadau i wella'r economi ymwelwyr yng Nghymru drwy ddefnyddio nifer o ddulliau gweithredu gwahanol, gan gynnwys monitro a dadansoddi agweddau trigolion.

Bydd hyn yn galluogi Croeso Cymru i feithrin dealltwriaeth ddyfnach a mwy ystyrlon o'r cymhellion, y profiadau a'r argraffiadau sydd gan drigolion a all helpu i lywio polisi, gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau a gwella'r profiad cyffredinol o ymweld â Chymru a byw yn y wlad.

Gall deall Profiadau Trigolion helpu Croeso Cymru i ddarparu gwybodaeth werthfawr ar lefel genedlaethol am yr effaith y mae ein penderfyniadau polisi yn ei chael ar bobl a'r ffordd y mae newidiadau yn ymddygiad ymwelwyr yn effeithio ar bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Ar lefel Rhanbarth ac Awdurdod Lleol, gall y math hwn o wybodaeth helpu i lywio buddsoddiadau, gwaith cynllunio strategol a gweithrediadau ar lawr gwlad a fydd yn sicrhau llai o oedi rhwng rhoi gwybod am broblemau a rhoi atebion ar waith.

Fel y trafodir yn ‘Croeso i Gymru’, mae Twristiaeth yn ddiwydiant sy'n cwmpasu sawl maes gan groestorri economi cyrchfan â'i chynaliadwyedd amgylcheddol, ei hymdeimlad o gymuned a'i threftadaeth a'i diwylliant. Fel rhan o'n hymrwymiad i ddeall y ffactorau sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn cael profiad cadarnhaol, mae meithrin gwybodaeth am deimladau trigolion a'r gydberthynas â theimladau ymwelwyr yn berthnasol i lesiant cymunedau lleol (o safbwynt economaidd a safbwynt nad yw'n un economaidd) ac i ddatblygu twristiaeth mewn modd cynaliadwy sy'n fanteisiol i drigolion ochr yn ochr â phoblogaethau ymwelwyr.

Diben y papur hwn yw:

- Cyflwyno canfyddiadau o'r llenyddiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am deimladau trigolion mewn perthynas â thwristiaeth,

- Cyflwyno astudiaeth achos o leoliad sydd wedi defnyddio dull mesur agweddau trigolion yn llwyddiannus,
- Cyflwyno canfyddiadau o gyfres o gyfweliadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd er mwyn nodi ffactorau dymunol ar gyfer dull o fesur teimladau trigolion i'w ddefnyddio gan Croeso Cymru.

**Adran 1: Adolygiad o Lenyddiaeth**

Bydd yr adran hon yn ystyried tueddiadau a damcaniaethau diweddar, yn ogystal â dulliau a materion methodolegol, er mwyn nodi pa newidynnau allweddol y dylid eu hystyried wrth wneud gwaith ar arolwg twristiaeth o drigolion neu brosiect twristiaeth sy'n canolbwyntio ar drigolion. Mae cyfoeth o lenyddiaeth ar gael o fewn astudiaethau twristiaeth am y pwnc hwn. Felly, er mwyn cyfyngu ar gwmpas yr adolygiad, mae'r papur hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfnodolion, papurau a thestunau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid a gyhoeddwyd yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, gyda ffocws craidd ar drigolion. Mae’r isod wedi'i strwythuro'n dair prif adran: yn gyntaf, cyflwyniad byr i bwysigrwydd deall teimladau trigolion, yn ail cipolwg ar y prif ddamcaniaethau yn y llenyddiaeth ac yn drydydd adolygiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd mewn astudiaethau o deimladau trigolion hyd yma.

**Crynodeb:**

1. Os bydd strategaeth ar gyfer twristiaeth yn ymwneud ag egwyddorion cynaliadwyedd, rhaid i drigolion chwarae rhan ganolog mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Nid yw mesur teimladau trigolion yn unig yn arfer gynaliadwy. Yn lle hynny, mae angen i drigolion gael eu hintegreiddio yn y broses dwristiaeth. Mae sawl ffordd o wneud hyn.
2. Damcaniaeth cyfnewid cymdeithasol yw'r model eglurhaol a ddefnyddir gan amlaf ers amser maith mewn astudiaethau o deimladau trigolion. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o bapurau yn profi ei fod yn anwybyddu'r ffactorau allweddol sy'n llywio teimladau trigolion. Felly, mae dulliau gweithredu a damcaniaethau eraill wedi'u cyflwyno yn y llenyddiaeth ond mae'r rhain wedi tueddu i gael eu defnyddio'n ysbeidiol (e.e. mewn ffordd arbrofol) ac, felly, ni phrofwyd eto eu bod yn fodelau y gellir ymddiried ynddynt.
3. Mae symudiad cynyddol gryf tuag at ganolbwyntio ar rymuso fel newidyn allweddol yn agweddau trigolion at dwristiaeth. Mae'r newid hwn yn y

paradeim hwn yn gorfodi'r diwydiant i ganolbwyntio ar gynnwys trigolion yn hytrach na dim ond eu harolygu. Mae dull Graddfa Grymuso Trigolion drwy Dwristiaeth (RETS) wedi gorfodi academyddion i ystyried dulliau cydweithredol mwy arbrofol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

4. Ymddengys mai dulliau meintiol sy'n cael eu ffafrio yn y maes ac mewn llenyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth yn gryf o blaid defnyddio'r dull ansoddol os oes angen dealltwriaeth fanylach o'r materion mewn ardal benodol.
5. Mae diffyg ffocws ar roi gwybod am ganfyddiadau yn y llenyddiaeth. Mae dulliau cydweithredol a chyfranogol yn cynnig rhywfaint o obaith yn hyn o beth; mae eu ffocws ar gynnwys trigolion mewn prosesau twristiaeth (pan gaiff ei wneud yn dda) yn arwain at lif cyson o gyfathrebu amlgyfeiriol rhwng trigolion a'r llywodraeth.

## 1. Pam y dylid mesur teimladau trigolion

O safbwynt y diwydiant, mae trigolion yn rhan bwysig o'r ‘cynnyrch’ sy'n cael ei werthu i ymwelydd â lle penodol. Mae eu hagweddau a'u hymddygiadau tuag at yr ymwelydd yn chwarae rhan ganolog yn y ffordd y mae'r ymwelydd yn penderfynu bod cyrchfan yn groesawgar neu'n gyfeillgar, sy'n effeithio ar lefelau boddhad twristiaeth, adolygiadau a nifer yr ymweliadau dychwel yn gyffredinol. Cyfeirir at hyn weithiau fel effaith y ‘gwesteiwr hapus’ (Snaith a Haley 1999). Mae ymwelwyr yn aml yn nodi hefyd eu bod am gael profiad ‘dilys’ fel rhan o'u hagenda. Mae trigolion ym mhobman yn rhan o'r dilysrwydd hwn, boed hynny'n uniongyrchol (drwy roi profiadau i'r ymwelydd) neu'n anuniongyrchol (drwy agwedd groesawgar yn unig).

Yn yr un modd, gall teimladau negyddol trigolion at dwristiaeth amharu ar brofiad yr ymwelydd. Os na all ymwelwyr gael profiadau lleol ac os gwneir iddynt deimlo nad oes croeso iddynt, mae'n annhebygol iawn y byddant yn dychwelyd neu'n argymell cyrchfan i eraill. Mae'r adweithiau negyddol amlwg iawn a welwyd ymhlith cymunedau yn Ewrop yn dangos yr hyn a all ddigwydd pan fydd trigolion yn credu nad yw eu barn ar dwristiaeth yn cael ei hystyried. Mae Fenis a Barcelona yn ddwy enghraifft o hyn; Mae gor-dwristiaeth yn y dinasoedd hyn wedi arwain at adweithiau negyddol ac aflonyddwch cymdeithasol agored ar ffurf protestiadau a graffiti yn

datgan ‘twristiaid ewch adref’ mewn cyrchfannau poblogaidd i dwristiaid.[1] Fe'u dilynwyd gan ddinasoedd eraill ac, o ganlyniad, lluniodd gwefannau restrau o ddinasoedd poblogaidd yn Ewrop y dylid eu hosgoi wrth iddynt droi'n gyrchfannau 'dig'.[2] Er mwyn osgoi cyrraedd y sefyllfa hon, mae angen i sefydliadau rheoli cyrchfannau, cynghorau lleol a llywodraethau cenedlaethol roi systemau ar waith ar gyfer gwrando ar drigolion. Mae deall teimladau trigolion yn helpu i ddatblygu polisïau sy'n lleihau'r effeithiau negyddol posibl ac yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl, a fydd, yn ei dro, yn arwain at fwy o gymorth ar gyfer prosiectau yn y dyfodol (Prayag et al. 2013; Stylidis et al. 2014).

Nid yw'n syndod bod cryn ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trigolion yn y llenyddiaeth ar dwristiaeth. Ar hyn o bryd, mae'r llenyddiaeth yn nodi bod trigolion yn allweddol i arferion twristiaeth, gyda chymorth trigolion yn cael ei ystyried yn hanfodol i ddatblygiad cynaliadwy y diwydiant yn yr hirdymor (Gursoy a Rutherford 2004; Hadinejad et al. 2019; Liang et al. 2021). Mae rhai yn dadlau y bydd unrhyw system dwristiaeth nad yw'n ystyried bod trigolion yn rhanddeiliaid allweddol yn methu yn y pen draw (Haahti 2001; Easterling 2004). Mae UNWTO yn pwysleisio ei bod yn bwysig deall bod a wnelo arferion twristiaeth cynaliadwy â mwy na dim ond ffactorau amgylcheddol a bod a wnelont hefyd â sicrhau parch at ddilysrwydd diwylliannol-gymdeithasol cymunedau sy'n derbyn ymwelwyr (UNWTO 2005). Felly, ystyrir bod casglu barn trigolion yn hanfodol i ddeall effeithiau diwylliannol-gymdeithasol datblygu twristiaeth a sicrhau y bodlonir egwyddorion twristiaeth gynaliadwy.

## Damcaniaethau

Gan fod trigolion yn hanfodol i arferion cynaliadwy, mae corff sylweddol (sy'n cynyddu o hyd) o lenyddiaeth bellach sy'n canolbwyntio ar y ffordd orau o ddeall ac asesu teimladau trigolion (Nunkoo et al. 2013; Sharpley 2014; Hadinejad et al. 2019). Yn ôl McGehee a Andereck (2004), erbyn blynyddoedd cynnar y ganrif hon trigolion yw un o'r meysydd mewn astudiaethau o dwristiaeth a oedd yn destun yr ymchwil fwyaf systematig. Mae'r is-faes poblogaidd hwn wedi defnyddio astudiaethau achos

[1] Media coverage of tourism protests in Europe (BBC News)

[2] Gweler: Tourist Hotpots that are best avoided (The Culture Trip) neu Summer lovin'? Not in angry Europe's tourist hotspots (Times of Malta)

a data o bob rhan o'r byd, er mwyn ceisio nodi'r newidynnau allweddol sy'n effeithio ar gefnogaeth trigolion i ddatblygu twristiaeth. Wrth wneud hynny, mae wedi profi sawl newid yn y paradeim, yn amrywio o fynegai dicter unffordd Doxey (a oedd yn awgrymu, wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu, fod trigolion yn mynd drwy bedwar cam o emosiwn), i'r damcaniaethau presennol ynglŷn â grymuso (sy'n dadlau o blaid gwerth cydgynhyrchu) (Boley a McGehee 2014).

Er y gallai'r corff hwn o waith ddarparu sail gadarn ar gyfer datblygiad damcaniaethol mewn astudiaethau o dwristiaeth, mae dadl frwd o hyd ynghylch beth y dylid ei fesur a sut; fel yr ysgrifenna Liang et al. (2021, tud. 3310), 'yn baradocsaidd, po fwyaf y mae astudiaethau empirig yn cronni, lleiaf yn y byd yw'r consensws a sicrheir'. Cytunir yn gyffredinol fod newidynnau pwysigrwydd yn perthyn i dri chategori allweddol, sef: diwylliannol-gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a gellir nodi bod y newidynnau ym mhob un o'r rhain yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar drigolion (García et al. 2015). Fodd bynnag, yn y categorïau hyn, mae nifer dirifedi o newidynnau y gellir eu mesur a sawl ffordd o'u mesur, sy'n esbonio'r diffyg consensws. Mae llawer yn dal i gredu nad ymdriniwyd â'r ffactorau sylfaenol sy'n effeithio ar drigolion, sy'n golygu eu bod yn parhau i droi at fethodolegau a damcaniaethau arbrofol er mwyn dod o hyd i fodel mwy priodol. Byddai'n amhosibl ymdrin â phob newidyn a dull gweithredu a fabwysiadwyd yn y papur hwn. Felly, mae'r adran ganlynol yn ystyried rhai o'r damcaniaethau a dulliau mwyaf poblogaidd ac yn rhoi rhai enghreifftiau o'r ffordd y mae rhai astudiaethau wedi'u defnyddio. Mae'n bwysig nodi bod meysydd eraill (megis seicoleg) wedi gwneud cyfraniadau defnyddiol at effaith teimladau trigolion a thwristiaeth (er enghraifft; Linderová et al. (2021)), ond er mwyn bod yn gryno, mae'r isod yn canolbwyntio'n bennaf ar y llenyddiaeth a geir mewn astudiaethau o dwristiaeth.

Nododd adolygiad systematig o astudiaethau o deimladau trigolion a dadansoddiad o gynnwys yr astudiaethau hynny, a gynhaliwyd gan Hadinejad et al. (2019), nad oedd ychydig dros 44 o'r papurau wedi defnyddio dull damcaniaethol. Mae hyn yn wahanol i adolygiad Nunkoo et al. (2013) a nododd fod mwy o bapurau annamcaniaethol na phapurau damcaniaethol, sy'n awgrymu bod y maes yn araf yn cael ei ddamcaneiddio'n fwy dros amser. Ymhlith y papurau sy'n defnyddio damcaniaethau, damcaniaeth cyfnewid cymdeithasol (SET) sy'n cael ei defnyddio

fwyaf o bell ffordd (Sharpley 2014). Mae astudiaeth Hadinejad et al. (2019) yn cadarnhau hyn; gwnaethant nodi bod 44.6% o astudiaethau damcaniaethol yn y pedwar prif gylchgrawn twristiaeth wedi defnyddio damcaniaeth cyfnewid cymdeithasol i esbonio teimladau trigolion. Felly, mae'r adran hon yn dechrau drwy ystyried effeithiolrwydd y dull damcaniaethol hwn.

**SET:** Deëllir yn gyffredin fod damcaniaeth cyfnewid cymdeithasol (SET) yn estyniad i ddamcaniaeth cyfnewid economaidd draddodiadol. Mae ei phwerau esboniadol yn golygu ei bod yn ddeniadol i lunwyr polisi ac academyddion. Mae SET yn ddamcaniaeth ymddygiadol sy'n lleoli prosesau cyfnewid fel ffordd o ddeall a rhagfynegi agweddau. Gall prosesau cyfnewid fod rhwng unigolion, sefydliadau neu lywodraethau. Mewn astudiaethau o dwristiaeth, fe'i defnyddir i esbonio ymddygiad trigolion tuag at yr ymwelydd a datblygu twristiaeth. Mae cefnogaeth trigolion (a maint eu cefnogaeth yn y dyfodol) yn dibynnu ar anfanteision a manteision canfyddedig y diwydiant twristiaeth lleol. Bydd trigolion yn cymryd rhan mewn proses gyfnewid (cynnig cymorth) os byddant o'r farn y bydd y manteision yn fwy na'r anfanteision (Stylidis et al. 2014). Yn y bôn, mae'r ddamcaniaeth yn honni bod barn trigolion yn seiliedig ar gydberthynas gyfnewid, lle mae trigolion yn rhagweld manteision a fydd yn deillio o'u rhyngweithio ag ymwelwyr neu eu cefnogaeth i ddatblygu twristiaeth, ac yn ymddwyn yn unol â hynny (Lee 2013; Bimonte a Faralla 2016). Nid yw manteision yn gyfyngedig i werthoedd economaidd. Gall fod manteision diwylliannol-gymdeithasol ac amgylcheddol hefyd (Andereck a Vogt 2000; Harrill 2004).

**Enghreifftiau o SET:** Mae Prayag et al. (2013) yn cyfuno damcaniaeth gweithredu rhesymegol â SET er mwyn astudio cefnogaeth trigolion i Gemau Olympaidd Llundain yn 2012. Maent yn dadlau mai digwyddiadau chwaraeon mawr yw un o'r rhannau o'r diwydiant twristiaeth sy'n tyfu gyflymaf. Serch hynny, mae eu cynaliadwyedd yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal (Prayag et al. 2013, tud. 629). Mae eu hastudiaeth yn defnyddio dull holiadur, sydd â'r nod o ddeall agweddau craidd trigolion at Gemau 2012; effeithiau canfyddedig y gemau (yr anfanteision o gymharu â'r manteision) a faint o gefnogaeth sydd i'r gemau ymhlith y trigolion. Nododd yr ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno/anghytuno ag amrywiaeth o osodiadau (gweler tabl 1 isod am restr o'r

gosodiadau hyn). Mae Prayag et al. (2013) yn defnyddio'r dull sylfaen driphlyg poblogaidd yn eu gwaith mesur a dadansoddi; dealltwriaeth, er mwyn i waith datblygu twristiaeth fod yn gynaliadwy, fod yn rhaid iddo ganolbwyntio ar strategaeth gymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â strategaeth economaidd draddodiadol (Stoddard et al. 2012). Mae eu canlyniadau yn nodi, ar y cyfan, fod agwedd yn chwarae rôl liniaru rhwng effeithiau canfyddedig (diwylliannol-gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) a chefnogaeth i Gemau 2012 (Prayag et al. 2013, tud. 329). Maent yn nodi ar gyfer ymchwilwyr yn y dyfodol fod eu hastudiaeth yn dangos pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng agwedd a chefnogaeth.

| **Y newidyn a astudir** | **Dangosyddion a ddefnyddir yn yr holiadur** |
|---|---|
| Effeithiau diwylliannol-gymdeithasol cadarnhaol canfyddedig | Bydd y Gemau yn dod â chymuned Llundain yn agosach at ei gilydd<br>Bydd y Gemau yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod â phobl newydd<br>Bydd y Gemau yn meithrin balchder ymhlith trigolion Llundain a phobl Prydain<br>Bydd y Gemau yn hyrwyddo Llundain fel cyrchfan amlddiwylliannol<br>Bydd y Gemau yn darparu adloniant i drigolion ac yn rhoi cyfle iddynt ymlacio<br>Bydd y Gemau yn cryfhau cysylltiadau ac yn gwella cydlyniant rhwng cymunedau lleol |
| Effeithiau diwylliannol-gymdeithasol negyddol canfyddedig | Bydd y Gemau yn tarfu ar ansawdd bywyd trigolion<br>Bydd y Gemau yn arwain at orlenwi cyfleusterau lleol<br>Bydd y Gemau yn arwain at gynnydd mewn troseddau |

| | |
|---|---|
| Effeithiau amgylcheddol cadarnhaol canfyddedig | Bydd y Gemau yn gwella ymdrechion i gadw a gwarchod yr amgylchedd<br>Bydd y Gemau yn codi ymwybyddiaeth amgylcheddol<br>Bydd y Gemau yn ysgogi rheolaethau cynllunio a rheolaethau gweinyddol megis polisïau ailgylchu a mesurau rheoli llygredd |
| Effeithiau amgylcheddol negyddol canfyddedig | Bydd y Gemau yn niweidio'r amgylchedd naturiol<br>Bydd y Gemau yn cynyddu llygredd sŵn<br>Bydd y Gemau yn cynyddu llygredd gweledol<br>Bydd y Gemau yn cynyddu lefelau sbwriel<br>Bydd y Gemau yn cynyddu llygredd aer |
| Effeithiau economaidd cadarnhaol canfyddedig | Bydd y Gemau yn cynnig cyfleoedd gwaith i bobl leol<br>Bydd y Gemau yn gwella darpariaeth gwasanaethau a seilwaith cyhoeddus<br>Bydd y Gemau yn cynyddu cyfleoedd i fusnesau<br>Mae'r Gemau wedi arwain at adfywio ac ailddatblygu trefi a dinasoedd<br>Bydd y Gemau yn hyrwyddo enw da Llundain yn rhyngwladol drwy ei dwyn i sylw'r cyfryngau ledled y byd<br>Bydd y Gemau yn gwella delwedd Llundain ledled y byd<br>Bydd y Gemau yn hyrwyddo Llundain fel cyrchfan i dwristiaid |
| Effeithiau economaidd negyddol canfyddedig | Mae'r Gemau wedi cynyddu cyfraddau treth ar gyfer trigolion Llundain |

| | |
|---|---|
| | Ni ellir cyfiawnhau'r buddsoddiad mawr roedd angen ei wneud i gynnal y Gemau o ran y manteision economaidd i drigolion a fydd yn deillio ohonynt. |
| Agwedd gyffredinol at y gemau | Ar y cyfan, rwy'n falch iawn bod Llundain yn cynnal Gemau Olympaidd 2012<br>Ar y cyfan, bydd effeithiau cadarnhaol y Gemau yn drech na'u heffeithiau negyddol |
| Cefnogaeth i'r gemau | Rwy'n cefnogi Gemau Olympaidd 2012 fel preswylydd lleol<br>Dylai Llundain wneud ceisiadau i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr eraill. |

*Tabl 1(Prayag et al. 2013, p. 635)*

Mewn astudiaeth wahanol iawn mae Rua (2020) yn defnyddio model SET i ddeall agweddau trigolion yn Girona (dinas yng Ngogledd Catalonia). Mae Rua (2020) yn dadlau bod fframwaith SET yn hawdd ei addasu ac y gellir ei ddefnyddio i edrych ar newidynnau llai pendant – yn yr achos hwn sut y gall newidyn emosiwn ddylanwadu ar deimladau trigolion. Yn debyg i Prayag et al. (2013) mae'r astudiaeth hon hefyd yn defnyddio dull holiadur, ond mae Rua hefyd yn ategu hyn â rhai cyfweliadau ansoddol manwl. Er mwyn astudio effaith emosiwn, mae'r astudiaeth yn defnyddio newidynnau manteision personol, ymwneud â diwydiant ac ymlyniad wrth gymuned. Defnyddir y newidynnau hyn i ddeall effeithiau cadarnhaol/negyddol canfyddedig (yr anfanteision o gymharu â'r manteision) y diwydiant ac, yn ei thro, gefnogaeth gyffredinol i dwristiaeth (gweler tabl dau isod am y rhestr lawn o'r newidynnau a astudiwyd). Yn debyg i Prayag et al. (2013) defnyddiodd yr astudiaeth raddfa gytuno hefyd lle y nododd trigolion i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â gosodiad. Mae Rua yn tynnu sylw at ba mor anodd yw mesur rhai o'r agweddau hyn; e.e. gall fod yn anodd adnabod manteision aneconomaidd ac yn aml gall y llinellau rhwng manteision personol a manteision cymunedol fod yn aneglur. Dyna pam y gall cyfweliadau ansoddol manwl, ochr yn ochr â holiadur, fod yn ddefnyddiol i sicrhau

dilysrwydd. Mae Rua yn nodi bod cefnogaeth gyffredinol i dwristiaeth pan fydd y manteision canfyddedig yn fwy na'r anfanteision. Yn debyg i Prayag et al. (2013), nid yw'r canfyddiad hwn yn un arbennig o ddadlennol. Yr hyn sy'n fwy diddorol yw bod dull cymysg Rua (y defnydd o gyfweliadau) yn awgrymu bod ffactorau balchder a mwy o ryngweithio ag ymwelwyr yn dylanwadu'n fawr ar deimladau trigolion at dwristiaeth yn Girona.

| **Y newidyn a astudir** | **Dangosyddion a ddefnyddir yn yr holiadur** |
|---|---|
| Cefnogaeth i dwristiaeth | Twristiaeth yw un o'r diwydiannau pwysicaf i'm cymuned<br>Mae twristiaeth yn helpu fy nghymuned i dyfu<br>Mae twristiaeth yn helpu fy nghymuned i dyfu i'r cyfeiriad cywir<br>Mae twristiaeth yn chwarae rôl economaidd bwysig yn fy nghymuned<br>Rwy'n ymfalchïo yn y ffaith bod twristiaid yn dod i'm cymuned<br>Rwyf o blaid datblygu twristiaeth am ei bod yn hanfodol i'm cymuned<br>Dylai fy nghymuned geisio denu mwy o dwristiaid |
| Effeithiau negyddol canfyddedig twristiaeth | Prisiau nwyddau a gwasanaethau uwch<br>Rhenti uwch<br>Mwy o sŵn<br>Mwy o dagfeydd<br>Mae'n ysgogi siopau cofroddion a chaffis sydd wedi'u hanelu at dwristiaid i agor yn lle siopau a chaffis wedi'u hanelu at bobl leol |
| Effeithiau cadarnhaol canfyddedig | Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl leol<br>Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol |

| | |
|---|---|
| twristiaeth | Golwg well ar y ddinas<br>Mwy o gyfleoedd ar gyfer hamdden<br>Mwy o gyfleoedd i gymdeithasu |
| Ymlyniad wrth y gymuned | Hyd preswyliad<br>Ymdeimladau o symud i ffwrdd<br>Ymdeimladau o fod "gartref"<br>Diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd |
| Ymwneud â'r diwydiant twristiaeth | Lefel o wybodaeth am ddatblygu twristiaeth yn Girona<br>Lefel o wybodaeth am dwristiaid yn Girona<br>Lefel o wybodaeth am effeithiau twristiaeth<br>Meithrin cyfeillgarwch â thwristiaid<br>Pa mor aml mae pobl yn ymweld ag ardaloedd twristaidd<br>Cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau |
| Manteision personol sy'n deillio o dwristiaeth | Cyfarfod â mwy o bobl a dysgu gan ddiwylliannau eraill<br>Mae mwy o farrau a bwytai y gallwn fynd iddynt<br>Mae gen i waith diolch i dwristiaeth<br>Mae twristiaeth yn cyfrannu at incwm aelwydydd |

*Tabl 2 (Rua 2020, p.169)*

Ni ellir gwadu nad yw damcaniaeth cyfnewid cymdeithasol wedi gwneud cyfraniad damcaniaethol pwysig at y maes a bod y defnydd systematig ohoni ledled y byd wedi cynhyrchu data empirig gwerthfawr y gallwn eu defnyddio i gymharu a chyferbynnu defnyddioldeb gwahanol newidynnau (Nunkoo 2016). Fodd bynnag, yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae cryn dipyn o wrthwynebiad i SET wedi ymddangos yn y llenyddiaeth. Mae nifer cynyddol o academyddion wedi dechrau amau effeithiolrwydd SET i esbonio ymddygiad trigolion yn yr 21ain ganrif. Mae rhai yn honni bod dull SET

yn dibynnu gormod ar y rhagosodiad bod trigolion yn benderfynwyr rhesymegol a'u bod yn gallu pwyso a mesur manteision ac anfanteision twristiaeth (Hadinejad et al. 2019). Mae amheuaeth hefyd ynghylch a all SET nodi'r gwahaniaeth rhwng manteision personol a manteision cymunedol. Mae eraill yn dadlau bod y ddamcaniaeth yn dal i ddibynnu gormod ar ffactorau economaidd fel ffactorau ysgogi ar gyfer cefnogaeth i dwristiaeth.

**Dulliau eraill:** Mae'r tarfu hwn ar y brif ddamcaniaeth wedi arwain at yr hyn y mae Hadinejad et al. (2019) yn ei alw'n angen clir a dybryd i ddefnyddio damcaniaethau a fframweithiau newydd i ymchwilio i'r pwnc. Nododd adolygiad systematig Haninejad et al. (2019) fod pobl yn arbrofi gydag amrywiaeth eang o fframweithiau amgen (gweler tabl 3 isod ar restr o'r rhain). Yn yr adran nesaf ceir dwy enghraifft sy'n dangos sut mae'r dulliau eraill hyn wedi'u defnyddio'n llwyddiannus i ddeall teimladau trigolion.

| **Damcaniaethau** | **Canran y papurau** |
|---|---|
| Damcaniaeth cyfnewid cymdeithasol | 44.6% |
| Damcaniaeth cynrychiolaeth gymdeithasol | 6.2% |
| Damcaniaeth sefydliadol | 4.6% |
| Damcaniaeth goferu o'r gwaelod i fyny | 4.6% |
| Damcaniaeth ymlyniad wrth le | 3.1% |
| Damcaniaeth cydymddibyniad emosiynol | 3.1% |
| Damcaniaeth ddiwylliannol | 3.1% |
| Damcaniaeth rhesymoledd ffurfiol a gwirioneddol | 3.1% |
| Damcaniaeth rhanddeiliaid | 3.1% |
| Damcaniaeth hunaniaeth lle | 3.1% |
| Arall | 21.4% |

*Tabl 3 daw'r ffigurau o Hadinejad et al. (2019)*

**Enghreifftiau o ddulliau eraill:**

**Damcaniaeth Sefydliadol:** Mae Sinclair-Maragh a Gursoy (2015), yn defnyddio damcaniaeth sefydliadol fel fframwaith er mwyn astudio sut mae newidyn imperialaeth yn effeithio ar deimladau trigolion at dwristiaeth yn Jamaica. Yn y cyd-destun hwn, gall y ddamcaniaeth daflu goleuni ar ddylanwadau sefydliadol a gwleidyddol ar deimladau trigolion; gall esbonio canfyddiadau trigolion o imperialaeth fel newidyn newydd mewn perthynas â thwristiaeth (Sinclair-Maragh a Gursoy 2015, tud. 154). Unwaith eto, mae'r astudiaeth yn defnyddio holiadur ac, yna, fodel dadansoddiad atchweliad. Gwnaethant nodi, er bod canfyddiadau trigolion o imperialaeth wleidyddol a diwylliannol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau trigolion at dwristiaeth leol, fod imperialaeth economaidd yn cael effaith negyddol. Mae Sinclair-Maragh a Gursoy (2015) yn dangos sut y gellir dysgu gwersi mewn ynys-wledydd eraill sy'n datblygu o'u canfyddiadau; os yw imperialaeth economaidd yn newidyn sensitif, dylid ystyried rhoi cymhellion i fuddsoddwyr tramor yn ofalus. Mae Hadinejad et al. (2019) yn awgrymu y gellid defnyddio damcaniaeth sefydliadol hefyd yn y dyfodol i ddeall i ba raddau y mae trigolion yn ymddiried mewn sefydliadau lleol sy'n ymwneud â datblygu twristiaeth. Mae Nunkoo et al. (2012) wedi gwneud hyn yn rhannol drwy astudio sut mae ymddiriedaeth ryngbersonol, pŵer trigolion a pherfformiad canfyddedig yn benderfynyddion ymddiriedaeth wleidyddol mewn sefydliadau twristiaeth.

**Damcaniaeth goferu o'r gwaelod i fyny:** mae Bimonte a Faralla (2016) yn defnyddio damcaniaeth goferu o'r gwaelod i fyny i ddeall y gydberthynas rhwng twristiaeth a boddhad canfyddedig y gymuned sy'n derbyn twristiaid â bywyd. Yn ôl Bimonte a Faralla (2016) mae newidyn llesiant wedi'i anwybyddu yn y llenyddiaeth; maent yn nodi'n gywir, er bod astudiaethau blaenorol wedi nodi amrywiaeth o newidynnau a all ddylanwadu ar ganfyddiadau pobl o effeithiau sy'n ymwneud â thwristiaeth, nad ydynt wedi nodi sut mae'r canfyddiadau hyn yn mapio i lesiant personol neu ansawdd bywyd (Bimonte a Faralla 2016, tudalennau 200-201). Mabwysiedir damcaniaeth goferu am y gall esbonio'r gydberthynas rhwng meysydd bywyd gwahanol (e.e. is-feysydd bywyd cymdeithasol, iechyd, addysg) a boddhad cyffredinol â bywyd. Felly, nod Bimonte a Faralla (2016) yw canfod sut mae effeithiau twristiaeth yn effeithio ar feysydd bywyd gwahanol a llesiant canfyddedig

neu foddhad canfyddedig â bywyd yn gyffredinol. Defnyddiodd yr astudiaeth holiadur dau gam a fesurodd newidiadau mewn llesiant canfyddedig mewn gwahanol dymhorau twristaidd yn Follonica, sy'n gyrchfan boblogaidd i dwristiaid yn Nhwscani. O gyfuno'r dull hwn â model eglurhaol damcaniaeth goferu, cafwyd canlyniadau a oedd yn awgrymu ffenomenon deuol. Er bod trigolion yn ymwybodol o fanteision economaidd y tymor twristaidd prysur, ystyriwyd bod y tymor hwn yn ffactor a oedd yn cael effaith negyddol ar eu llesiant cyffredinol. Mae hyn yn bwrw amheuaeth ar y cysylltiad cadarnhaol sy'n aml yn cael ei geisio gan ddatblygwyr twristiaeth neu lunwyr polisi rhwng twf economaidd lleol a thwristiaeth. Roedd trigolion yn hollol ymwybodol o fanteision economaidd cronedig y tymor ond roeddent yn dal i ystyried bod eu llesiant cyffredinol yn dirywio. Felly, mae Bimonte a Faralla (2016, tud. 206) yn awgrymu y gallai monitro patrymau llesiant goddrychol gael ei ddefnyddio fel ffordd o werthuso polisïau.

Nid oes a wnelo'r broblem hyd yma gyda'r dulliau ‘eraill’ hyn â'u heffeithiolrwydd. Yn hytrach, mae a wnelo â'r ffaith nad ydynt wedi'u defnyddio digon o weithiau i fod yn fodelau profedig. Mae pob dull – ar wahân i SET – wedi'i ddefnyddio mewn ffordd arbrofol, sy'n golygu ar hyn o bryd fod y defnydd sydd wedi'i wneud o ddamcaniaethau eraill yn rhy dameidiog. Mae un eithriad i hyn. Ers 2010 bu newid sylweddol yn y paradeim yn y llenyddiaeth am drigolion lle mae astudiaethau wedi dechrau ystyried grymuso yn systematig fel ffactor allweddol sy'n effeithio ar deimladau trigolion.

**Paradeim grymuso:** mae grymuso wedi'i ystyried yn denant canolog mewn ymarfer twristiaeth cynaliadwy ers tro (Sofield 2003; Cole 2006; Wani et al. 2022). Dadleuir, er mwyn sicrhau bod twristiaeth yn dod â'r manteision mwyaf posibl i drigolion, fod angen i gyrchfan gynnwys (grymuso) y trigolion hynny yn y prosesau twristiaeth. Mae'r rhai sy'n ysgrifennu yn y maes hwn yn gryf o'r farn, os na chaiff trigolion eu cynnwys o gam cynnar mewn prosesau datblygu twristiaeth, na fydd y cynnyrch twristiaeth yn gynaliadwy (Boley a McGehee 2014). Fel y noda Choi a Murray (2010, tud. 589), os na fydd y llywodraeth yn grymuso trigolion, ni ellir gwarantu llwyddiant prosesau datblygu twristiaeth na chynaliadwyedd twristiaeth. Mae'r newid diweddar hwn yn y paradeim wedi ceisio newid dealltwriaeth gysyniadol o rymuso a dod o hyd i ffordd o fesur yn systematig i ba raddau y mae trigolion yn teimlo eu bod yn cael eu

grymuso gan dwristiaeth (ai peidio). Nid yw hyn yn hawdd gan fod grymuso yn newidyn ansylweddol ar y cyfan sy'n aml yn cael ei gyd-destunoli mewn ffyrdd gwahanol gan gyrchfannau gwahanol.

Fel rhan o'r newid hwn, mae graddfa grymuso trigolion drwy dwristiaeth (RETS) wedi deillio o'r llenyddiaeth sydd bellach yn cael ei defnyddio'n fwyfwy aml. Prif nod RETS yw adnabod a dadadeiladu gwahanol ffactorau sy'n llywio cefnogaeth trigolion drwy ddeall sut mae trigolion yn gweld eu hunain fel rhai sy'n cael eu grymuso neu eu dadrymuso gan dwristiaeth. Er mwyn gwneud hyn, mae'n mesur tri phrif ffactor, sef: grymuso cymdeithasol, grymuso gwleidyddol a grymuso seicolegol. Mae grymuso cymdeithasol yn cyfeirio at ganfyddiadau trigolion o'r ffordd y mae twristiaeth yn cynyddu eu hymdeimlad o gymuned; ystyrir bod twristiaeth yn adnodd i gynyddu eu cysylltiad â'u cymuned leol. Mae grymuso seicolegol yn cyfeirio at y ffordd y mae balchder trigolion yn eu cartref yn cael ei gynyddu drwy dwristiaeth; caiff hunan-barch ei gynyddu gan bobl o'r tu allan sy'n cydnabod gwerth eu cartref. Mae grymuso gwleidyddol yn cyfeirio at b'un a yw trigolion yn credu bod pobl eraill yn rhoi sylw i'w teimladau a'u barn ynglŷn â thwristiaeth ac yn gweithredu arnynt; mae aelodau o'r gymuned yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n deg ac mae ganddynt ymdeimlad canfyddedig o reolaeth dros eu materion (Boley a McGehee 2014). Mae sawl ffordd o ddefnyddio'r raddfa hon fel y dengys yr enghreifftiau isod.

**Enghraifft o RETS:** Boley a McGehee (2014) oedd ymhlith y rhai cyntaf i ddefnyddio dull RETS ac, yn eu hastudiaeth, maent yn ceisio profi dilysrwydd y raddfa hon. Maent yn cymhwyso'r raddfa at gynllun peilot ac yna astudiaeth cyn profi, cyn canolbwyntio ar astudiaeth achos lawn o dair ardal yng Ngorllewin Virginia. Yn debyg i enghreifftiau eraill yma, gwnaethant ddefnyddio holiadur i gasglu eu data. Datblygwyd yr holiadur hwn yn y camau cyn profi gyda thrigolion lleol a swyddogion twristiaeth, cyn ei dreialu ac yna ei ddosbarthu ar raddfa fawr. Dengys tabl pedwar y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr holiadau terfynol.

| **Y newidyn a astudir** | **Dangosyddion a ddefnyddir yn yr holiadur** |
| --- | --- |
| Grymuso seicolegol | Twristiaeth yn Sir Floyd/Franklin/Botetourt…<br>- Mae'n gwneud i mi deimlo'n falch fy mod yn byw yn Sir Floyd/Franklin/Botetourt<br>- Mae'n gwneud i mi deimlo'n arbennig am fod pobl yn teithio i weld nodweddion unigryw fy sir<br>- Mae'n codi awydd arnaf i sôn wrth bobl eraill am yr hyn sydd gennym i'w gynnig yn Sir Floyd/Franklin/Botetourt<br>- Mae'n fy atgoffa bod gennyf ddiwylliant unigryw i'w rannu ag ymwelwyr<br>- Mae'n codi awydd arnaf i weithio i sicrhau bod Sir Floyd/Franklin/Botetourt yn parhau i fod yn arbennig |
| Grymuso cymdeithasol | Twristiaeth yn Sir Floyd/Franklin/Botetourt…<br>- Mae'n gwneud i mi deimlo bod gennyf fwy o gysylltiad â'm cymuned<br>- Mae'n meithrin ymdeimlad o 'ysbryd cymunedol' ynof<br>- Mae'n cynnig ffordd i mi gyfranogi yn fy nghymuned |
| Grymuso gwleidyddol | Rwy'n teimlo... |

| | |
|---|---|
| | - Bod gennyf lais mewn penderfyniadau ynghylch datblygu twristiaeth yn Sir Floyd/Franklin/Botecourt<br>- Y gallaf weld y broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â thwristiaeth yn Sir Floyd/Franklin/Botecourt<br>- Bod fy mhleidlais yn gwneud gwahaniaeth o ran y ffordd y caiff twristiaeth ei datblygu yn Sir Floyd/Franklin/Botecourt<br>- Y gallaf leisio fy mhryderon ynghylch datblygu twristiaeth yn Sir Floyd/Franklin/Botecourt. |

*Tabl 4 (Boley a McGehee 2014)*

Fel y gellir gweld yn y tabl, mae dull RETS yn gofyn am gwestiynau gwahanol i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer dull SET. Felly, mae'r data a gesglir yn wahanol iawn. Nododd Boley a McGehee (2014) fod trigolion yn ystyried mai eu lefelau o rymuso seicolegol oedd y rhai uchaf a bod angen gwella grymuso cymdeithasol a grymuso gwleidyddol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i lunwyr polisi sy'n canolbwyntio ar y lleoliad sy'n cael ei astudio. Nododd Boley a McGehee (2014) fod dull RETS yn un dilys, sy'n ganfyddiad ychydig yn bwysicach. Maent yn dadlau bod RETS yn profi bod grymuso yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar gefnogaeth trigolion, gyda'r raddfa yn helpu sefydliadau i ddeall p'un a allant ddosbarthu twristiaeth yn eu cymuned yn effeithiol yn dwristiaeth gynaliadwy ai peidio. (2014, tudalennau 92-93).

Mewn astudiaeth lawer mwy diweddar, mae Neuts et al. (2021) yn defnyddio dull RETS i astudio lefelau grymuso trigolion yn ardal Scheldeland yn Fflandrys. Yn debyg i Boley a McGehee maent yn defnyddio holiadur ond yma gyda ffocws arbennig ar rymuso mewn perthynas â diffyg twristiaeth. Ceir manylion yr holiadur yn nhabl 5 isod. Yn ddiddorol ddigon, dengys Neuts et al. (2021) sut y gellir cyfuno cwestiynau sy'n canolbwyntio ar rymuso â'r cwestiynau mwy nodweddiadol sy'n gyffredin mewn astudiaethau cynharach (e.e. cwestiynau sy'n canolbwyntio ar

fanteision economaidd a chefnogaeth gyffredinol). Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r astudiaeth ystyried yr effaith y mae gwahanol fathau o rymuso yn ei chael ar newidynnau eraill.

| **Y newidyn a astudir** | **Dangosyddion a ddefnyddir yn yr holiadur** |
|---|---|
| Manteision economaidd personol | Cwestiwn deuaidd:<br>- A yw rhan o'ch incwm (incwm eich teulu) yn gysylltiedig â thwristiaeth? |
| Grymuso seicolegol | Cwestiynau trefnol:<br>- Rwy'n ystyried bod yr ardal hon yn gyrchfan i dwristiaid<br>- Mae'n gwneud i mi deimlo'n falch fy mod i'n breswylydd<br>- Mae twristiaeth yn codi awydd arnaf i sôn wrth bobl eraill am yr hyn sydd gennym i'w gynnig |
| Grymuso cymdeithasol | Cwestiynau trefnol:<br>- Mae twristiaeth yn cynnig cyfleoedd hyfryd i gyfarfod ag ymwelwyr<br>- Mae twristiaeth yn sicrhau bod mwy o gysylltiad rhwng pob un ohonom yn ein cymuned |
| Grymuso gwleidyddol | Cwestiynau trefnol:<br>- Mae syniadau ynglŷn â datblygu twristiaeth yn cael eu clywed<br>- Gallaf leisio fy mhryderon ynghylch datblygu twristiaeth |
| Effeithiau negyddol twristiaeth | Cwestiynau trefnol:<br>- Mae twristiaeth yn cynyddu costau byw |

| | |
|---|---|
| | - Mae mwy o broblemau traffig oherwydd twristiaeth<br>- Mewn rhai ardaloedd rwy'n teimlo'n llai cysurus oherwydd twristiaid<br>- Mae twristiaid yn niwsans |
| Effeithiau cadarnhaol twristiaeth | Cwestiynau trefnol:<br>- Mae datblygu twristiaeth yn gwella golwg ffisegol yr ardal (adfer adeiladau hanesyddol, cynnal a chadw a datblygu parciau, strydoedd a sgwariau ac ati)<br>- Mae twristiaeth yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer siopa a hamdden<br>- Mae twristiaeth yn gwella ansawdd bywyd<br>- Mae twristiaeth yn gwella safonau byw<br>- Caiff seilwaith twristiaeth ei gynnal a'i gadw'n dda<br>- Mae twristiaeth yn dod â mwy o fywiogrwydd i'm cymuned |
| Cefnogaeth i dwristiaeth | Cwestiynau trefnol:<br>- Ar y cyfan, mae manteision cadarnhaol twristiaeth yn drech na'r effeithiau negyddol<br>- Rwy'n cefnogi twristiaeth a hoffwn ei gweld yn parhau i fod yn bwysig<br>- Dylem barhau i fod yn gyrchfan i dwristiaid |

| | |
|---|---|
| | - Dylem gefnogi'r gwaith o hyrwyddo twristiaeth |

*Tabl 5 (Neuts et al. 2021)*

Defnyddiodd Neuts et al. (2021) fodel hafaliadau strwythurol swm lleiaf sgwariau rhannol i ddadansoddi'r data. Nododd y canlyniadau fod pob un o'r tri maes grymuso yn dylanwadu'n fawr ar gefnogaeth i dwristiaeth ac nad oedd ffactorau economaidd yn bwysig. Mae Neuts et al. (2021, tud. 6934) yn dadlau bod eu canfyddiadau yn dangos y dylai pobl leol gael eu hymgorffori'n benodol yn strwythur llywodraethu'r strategaeth datblygu twristiaeth. Yn ddiddorol ddigon, gwnaethant hefyd nodi mai ardaloedd â'r lefelau isaf o dwristiaeth oedd leiaf cefnogol i ddatblygu twristiaeth, sy'n awgrymu, wrth i dwristiaeth gynyddu, fod ymwybyddiaeth gyffredinol o'i manteision yn cynyddu hefyd.

Er bod dull RETS yn dal i fod yn gymharol newydd ac, mewn llawer o achosion, yn dal i gael ei ddefnyddio mewn ffordd arbrofol, y peth pwysig y mae wedi'i wneud yw tynnu sylw at y ffaith nad yw newidynnau y tybiwyd eu bod yn bwysig yn flaenorol (e.e. manteision economaidd neu gyflogaeth yn y diwydiant), o bosibl, yr un mor berthnasol i drigolion yn yr 21ain ganrif. Mae'r protestiadau gan drigolion a welwyd mewn llawer o ddinasoedd yn Ewrop yn dangos yn glir, yn yr 21ain ganrif, fod angen i drigolion chware mwy o ran mewn strategaethau a phrosesau twristiaeth lleol a'u bod yn awyddus i wneud hynny. Felly, mae angen i rymuso gael ei ystyried yn newidyn allweddol. Mae RETS fel model yn cynnig ffordd o fesur y newidyn hwn.

## Dull

Fel y gellir gweld yn yr astudiaethau enghreifftiol a ddefnyddiwyd hyd yma, mae hwn yn faes lle mae defnydd helaeth iawn yn cael ei wneud o'r dull meintiol (Nunkoo et al. 2013). Yn eu hadolygiad systematig o'r maes, nododd Hadinejad et al. (2019) fod 83% o astudiaethau sy'n canolbwyntio ar drigolion yn dibynnu ar ddull meintiol o gasglu data. Nodwyd ganddynt fod 10% arall yn defnyddio dulliau cymysg, ond roedd yr astudiaethau hyn yn tueddu i ddefnyddio cynllun dilyniannol lle y defnyddiwyd dulliau ansoddol ar gyfer camau ymchwiliol ac yna ddulliau meintiol ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith casglu data (Hadinejad et al. 2019). Mae astudiaeth Boley a McGehee (2014) yn enghraifft dda o hyn; maent yn defnyddio dulliau ansoddol ar gyfer y camau cyn

profi, gan ddewis cydweithio â thrigolion er mwyn llunio a phrofi'r arolwg, cyn ei gyflwyno ar raddfa feintiol fwy. Nid yw'n syndod bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o ddulliau meintiol o gofio bod yn well gan sefydliadau rheoli cyrchfannau, cynghorau lleol ac adrannau'r Llywodraeth gael a defnyddio data mesuradwy. Mae rhai hefyd yn dadlau bod dulliau meintiol yn creu astudiaethau sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau am ei bod yn haws profi dilysrwydd mewnol ac allanol (Rua 2020). Fel sy'n wir am yr holl astudiaethau sy'n cael eu hystyried yma, mae'r rhan fwyaf o waith meintiol yn defnyddio dull arolwg/holiadur ar raddfa fawr ac, yna, ddadansoddiad atchweliad. Mae technegau ystadegol megis modelu hafaliadau strwythurol, prawf T a dadansoddi ffactorau ategol wedi bod yn boblogaidd ar gyfer camau dadansoddi (Nunkoo et al. 2013; Prayag et al. 2013; Hadinejad et al. 2019).

Er gwaethaf y defnydd helaeth iawn o ddulliau meintiol ar draul dulliau ansoddol, mae galwadau cynyddol yn y llenyddiaeth i symud i ffwrdd o'r ddibyniaeth hon ar ddulliau meintiol (Deery et al. 2012). Mae Hadinejad et al. (2019) yn dadlau bod angen gwneud defnydd pellach o ddulliau amgen o hyd, tra bod Deery et al. (2012) yn dadlau bod defnyddio dulliau meintiol yn unig yn cyfyngu ar ein dealltwriaeth bresennol o drigolion. Felly, rydym yn cyfyngu ar ein dealltwriaeth o'r effeithiau hirsefydlog y mae twristiaid yn eu cael ar drigolion. Mae gwaith Rua (2020) yn enghraifft dda o hyn; drwy gyfuno cyfweliadau ansoddol manwl ag arolwg meintiol, gellir astudio newidyn emosiwn mewn ffordd fanylach sy'n canolbwyntio mwy ar drigolion. Mae dulliau ansoddol eraill sydd wedi'u defnyddio i astudio trigolion yn cynnwys dull Q a gwaith dadansoddi thematig (ar gyfer cyfweliadau), a gwaith dadansoddi cyfryngau cymdeithasol (Hunter 2011; Hunt a Stronza 2014; Hadinejad et al. 2019). Mae'n amlwg bod y rhai sydd wedi defnyddio dulliau ansoddol wedi llwyddo i gasglu data manylach sy'n golygu y gallant esbonio ac ystyried yr agweddau llai pendant sy'n effeithio ar deimladau trigolion yn well.

Mae rhai astudiaethau ansoddol eraill wedi defnyddio dulliau a geir ym meysydd anthropoleg ac ethnograffeg i astudio teimladau trigolion. Mae gwaith Xue a Kerstetter (2017) gyda thrigolion yn Nyffryn Chongdu (Tsieina) yn enghraifft dda o hyn. Mae eu hastudiaeth yn defnyddio dulliau cymysg (ethnograffeg a dadansoddi disgwrs) i ystyried y gydberthynas rhwng gwaith datblygu twristiaeth a wneir gan y sector preifat a thrigolion. Mae Dyffryn Chongdu yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid,

i'r fath raddau nes bod 95% o'r trigolion yn gweithio mewn diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Roedd y dull ethnograffig a ddefnyddiwyd gan yr awduron yn golygu bod data wedi cael eu casglu drwy gyfweliadau, arsylwi ar gyfranogwyr a sgyrsiau anffurfiol. Yna, cyfunwyd y data hyn ag unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a oedd ar gael - h.y. adroddiadau blynyddol, dogfennau cynllunio, testunau hyrwyddo ac areithiau. Roedd gwaith dadansoddi disgwrs wedi'u galluogi i ganolbwyntio ar y patrymau ieithyddol a oedd yn codi dro ar ôl tro yn y data - gan ei gwneud yn bosibl i fanylion am werthoedd, damcaniaethau ac agweddau gwahanol grwpiau cymdeithasol gael eu hamlygu (Xue a Kerstetter 2017, tud. 758). Mae'r awduron yn pwysleisio sut y gall canolbwyntio ar iaith yn hytrach na gweithredoedd gynhyrchu data mwy dilys; gall gwaith dadansoddi disgwrs nodi'r rhyngweithio rhwng gwahanol safbwyntiau er bod consensws a chytundeb ar yr wyneb (tud.760). O ganlyniad, dangosodd eu canfyddiadau fod gan gwmnïau twristiaeth preifat a thrigolion syniadau gwahanol a oedd yn aml yn gwrthdaro â gilydd ynglŷn â materion yn ymwneud â datblygu twristiaeth, er bod consensws ar yr wyneb. Ar gyfer Xue a Kerstetter (2017, tud. 766), cadarnhaodd y canlyniadau fod cyfranogiad cymuned yn y gwaith o gynllunio, datblygu a rheoli twristiaeth yn hanfodol i unrhyw bolisi ar dwristiaeth gynaliadwy.

Yn ddiddorol ddigon, er gwaethaf y galwadau hyn sy'n codi'n fwyfwy aml i gyfranogiad trigolion fod wrth wraidd strategaeth twristiaeth, ni chafwyd unrhyw gonsensws eto o ran y ffordd orau o gyflwyno modelau cyfranogol. Ar hyn o bryd, gellir cael dau awgrym o'r llenyddiaeth, sef: ethnograffeg dinasyddion a chyd-greu.

Mae ethnograffeg yn cael ei defnyddio'n aml gan ymchwilwyr i faes twristiaeth; mae Frohlick a Harrison (2008) a Matthews (2018) yn rhoi cyflwyniadau i'r amrywiol ffyrdd y gellir defnyddio ethnograffeg mewn astudiaethau o dwristiaeth. Un o'r ffyrdd hyn yw ethnograffeg dinasyddion. Mae'n ddull cyfranogol lle mae'r model ethnograffig traddodiadol yn cael ei droi ben i waered sy'n golygu mai'r goddrych bellach yw'r sawl sy'n ymchwilio i'r ffenomena cymdeithasol dan sylw. Yn y bôn, y preswylydd bellach yw'r ethnograffydd mewn astudiaeth o'i gymuned ei hun. Er bod hyn yn golygu bod yn rhaid i'r dinesydd gael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio technegau ethnograffeg, mae'r dull yn darparu mynediad heb ei ail i'r pwnc, i'r dinesydd sydd eisoes yn rhan annatod o'r sefyllfa gymdeithasol sy'n cael ei hastudio. Mae papur

Badami a Goodman (2021) ar ethnograffeg dinasyddion yn trafod y potensial ar gyfer y dull hwn yn fwy cyffredinol. Maent yn rhoi enghraifft o'r ffordd y mae ethnograffeg dinasyddion wedi'i defnyddio'n llwyddiannus yng nghefn gwlad Awstralia i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau. Yn yr achos hwn, arweiniodd y dull ethnograffig hwn at gynghrair dan arweiniad y gymuned a allai nodi'n effeithiol y ffactorau craidd a oedd wrth wraidd y problemau iechyd meddwl cynyddol yn yr ardal. Mae Badami a Goodman (2021) hefyd yn nodi, pan fydd dinesydd yn dod yn ymchwilydd, fod gwybodaeth yn aros yn y gymuned y bwriedir iddi fod o fudd iddi, yn hytrach na gadael gydag ymchwilydd allanol. Mae hyn yn golygu bod cymunedau yn fwy abl i ddelio â phroblemau yn y dyfodol. Mae hwn yn ganfyddiad defnyddiol. Mae'r agwedd hon yn arbennig o ddeniadol ar gyfer prosiectau twristiaeth sy'n canolbwyntio ar drigolion sy'n ymwneud â gwerthoedd cynaliadwyedd. Pan fydd y preswylydd yn cyflawni rôl yr ethnograffydd, nid yn unig y bydd y data a gesglir yn fwy cynrychioliadol o'r pwnc dan sylw, caiff y wybodaeth a'r sgiliau a geir ar hyd y ffordd eu cadw yn y gymuned a byddant o fudd iddi am flynyddoedd i ddod.

Yr ail awgrym, sy'n fwy confensiynol o lawer, yw cyd-greu. O fewn strategaeth twristiaeth gall cyd-greu gael ei gyflawni mewn sawl ffordd ac unwaith eto mae cysylltiad agos rhyngddo a gwerthoedd cynaliadwyedd (Robinson 2008). Ceir un enghraifft o'r dull cyd-greu ym maes twristiaeth gymunedol. Yn y dull hwn, mae trigolion yn arwain y gwaith o gyflwyno'r prosiect twristiaeth i ymwelwyr. Er enghraifft, mae Amsterdam yn rhedeg cynllun lle y gall yr ymwelydd *briodi* person lleol am y diwrnod a chael ei dywys o amgylch y ddinas[3]. Ar y llaw arall, yn yr Alban mae Scoto yn gweithio'n unswydd i hyrwyddo profiadau i ymwelwyr a ddarperir gan y gymuned.[4] Mae'r dull hwn o ymdrin â thwristiaeth yn helpu i gynnwys a grymuso trigolion mewn prosesau twristiaeth lleol yn ogystal â rhoi profiad mwy *dilys* i ymwelwyr. I bob diben, mae trigolion yn dod yn rhanddeiliad allweddol. Fel y mae Lin et al. (2017, tud. 441) yn ei grynhoi'n dda, mae'r math hwn o gyd-greu yn cynnig cyfle i greu gwerth ar y cyd â thwristiaid yn ogystal â chynnig lletygarwch ac ewyllys da i ymwelwyr. Ar y llaw arall, gall cyd-greu gael ei gyflawni yn gynharach mewn strategaethau twristiaeth. Er enghraifft, wrth edrych ar arolwg o deimladau trigolion, gellir defnyddio

[3] Amsterdam invites tourists to 'marry' a local for a day (Guardian)
[4] Scottish Community Tourism (SCOTO)

proses gydlunio gyda phobl leol yn effeithiol i ddatblygu'r cwestiynau neu lywio penderfyniadau ynghylch pa newidynnau sydd angen eu mesur. O'i wneud yn dda, dylai hyn arwain at arolwg llawer mwy effeithiol; un sy'n cynrychioli'r gymuned sy'n cael ei hastudio y gallwn gael data y gellir gweithredu arnynt, ohono. Mae Stylidis et al. (2014) yn nodi, yn rhy aml o lawer, fod arolygon trigolion yn gyfyngol oherwydd y dulliau y maent yn eu defnyddio; mae fformatau cwestiynau yn tueddu i fod wedi'u codio'n ormodol ac, felly, ni allant roi darlun cywir o'r materion sy'n cael eu hystyried. Er enghraifft, mae'n anodd nodi gwir faint effeithiau pan fydd trigolion ond yn cael gosodiad cadarnhaol neu negyddol wedi'i rag-godio y gofynnir iddynt gytuno neu anghytuno ag ef. Gallai dull cydlunio, lle mae cwestiynau yn cael eu treialu gyda phobl leol neu eu hysgrifennu ar y cyd â phobl leol, osgoi'r problemau hyn.

Er ei fod yn hanfodol i lunio polisïau sy'n seiliedig ar wybodaeth, mae risgiau yn gysylltiedig â gwaith cyfranogol hefyd. Yn aml, gall fod yn gostus ac yn llafurus. Fel y noda Yang a Sung (2016), mae'r math hwn o ddull yn gofyn am gyfranogiad hirdymor gan nifer o randdeiliaid er mwyn creu system effeithiol a all ysgogi gwaith cyd-greu [gwerthfawr] a chefnogi prosesau trawsnewid yn gyson. At hynny, fel y noda Davies a Simon (2012), o'i wneud yn wael, gall gwaith cyfranogol wneud mwy o niwed na daioni mewn cymunedau a bod gwaith ymchwil yn awgrymu bod gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogi a gyflawnir yn wael neu nad ydynt yn ystyried ffactorau cyd-destunol, wneud niwed neu arwain at ganlyniadau negyddol - er enghraifft, gall disgwyliadau heb eu bodloni greu sinigiaeth ymhlith pobl a pheri iddynt ymddieithrio ymhellach. Er mwyn osgoi hyn, mae Davies a Simon (2012) yn awgrymu y dylid sicrhau bod y grwpiau a ddefnyddir ar gyfer y camau cyfranogol mor gynrychioliadol â phosibl o'r gymuned sy'n cael ei hastudio. Yn rhy aml o lawer, mae grwpiau â buddiannau breintiedig neu grwpiau elît yn cymryd meddiant o waith ymgysylltu. Byddai ymchwiliad trylwyr i'r gwahanol ddulliau o gyd-greu yn ddefnyddiol i unrhyw adran o'r llywodraeth, sefydliad rheoli cyrchfannau neu gyngor lleol sy'n awyddus i ddefnyddio'r dull cyfranogol hwn. Gall ymgysylltu cyfranogol fod ar ffurf fforymau ar-lein, arolygon ar y cyfryngau cymdeithasol, gweithdai wyneb yn wyneb, apiau neu grwpiau ffocws. Fel arfer, mae'r penderfyniad ynghylch pa broses gyfranogol sydd orau yn dibynnu ar gyfansoddiad diwylliannol-gymdeithasol yr ardal sy'n cael ei hastudio.

**Casgliad**

Yn ddiau, mae deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar gefnogaeth trigolion i dwristiaeth yn hanfodol i sefydliadau rheoli cyrchfannau, llunwyr polisi, cynllunwyr a busnesau preifat fel ei gilydd. At hynny, os bydd strategaeth ar gyfer twristiaeth yn ymwneud ag egwyddorion cynaliadwyedd, rhaid i drigolion chwarae rhan ganolog yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n amlwg bod grymuso trigolion bellach yn ffactor allweddol i ddeall ymddygiad ac agweddau trigolion tuag at dwristiaeth. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd mesur y ffactor ansylweddol hwn. Os mabwysiedir dull arolygu meintiol, mae dull RETS yn cynnig rhywfaint o ysbrydoliaeth. Os mabwysiedir dull mwy ansoddol, gall cyfweliadau manwl ar y cyd â gwaith dadansoddi disgwrs helpu i nodi lefelau grymuso. Prin yw'r llenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar sut i gyfleu canfyddiadau neu droi canfyddiadau yn brosesau llunio polisïau. O ystyried bod cyflwyno a chyfathrebu yn allweddol i sicrhau newidiadau, ymddengys fod hwn yn fwlch go iawn. Mae dulliau cydweithredol a chyfranogol yn cynnig rhywfaint o obaith yn hyn o beth. Nid yn unig y mae modelau cyfranogol (megis cyd-greu, cydlunio neu waith ymchwil a arweinir gan gymheiriaid) yn grymuso trigolion drwy ddemocrateiddio prosesau twristiaeth lleol, o'u cyflawni'n dda, dylent hefyd arwain at fecanwaith a all ddarparu ffrwd amlgyfeiriol gyson o gyfathrebu rhwng trigolion a'r llywodraeth. O gofio mai dwy o'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw *cydweithio* a *chynnwys*, mae angen i strategaethau a phrosesau twristiaeth Cymru sicrhau eu bod yn ymdrechu'n barhaus i rymuso a chynnwys trigolion. O ystyried yr amgylchedd polisi sy'n newid a fydd yn effeithio ar dwristiaeth yng Nghymru (e.e. y newidiadau i'r dreth ar berchenogaeth ail gartrefi a'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i Ardoll Ymwelwyr), mae'n briodol sicrhau bod y mecanweithiau ar waith er mwyn deall, nid yn unig sut i gynnal arolygon trigolion, ond hefyd sut i gydweithio â nhw er mwyn sicrhau cynaliadwyedd Cymru fel cyrchfan ddeniadol i ymwelwyr am genedlaethau i ddod.

**Adran 2:  Astudiaeth Achos**

Fflandrys, Gwlad Belg

**Ffocws:** y ffordd y mae Fflandrys wedi integreiddio trigolion yn ei strategaeth twristiaeth

**Crynodeb**

1. Dylid mynd ati i wrando ar anghenion ar gam cynnar neu bydd y strategaeth yn un adweithiol yn hytrach na rhagweithiol. Mae'r ffordd rydym yn gwrando (h.y. methodoleg arolygu) yn cael dylanwad mawr o ran yr hyn a ddysgir a'r hyn y gellir ei roi ar waith.
2. Nid yw mwy o dwristiaeth yn well twristiaeth; mae canolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na maint yn arwain at fodel mwy cynaliadwy â manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pendant i'r gyrchfan.
3. Er mwyn rhoi polisi twristiaeth gynaliadwy ar waith, mae'n bwysig edrych y tu hwnt i ffactorau amgylcheddol yn unig a chydnabod rôl hollbwysig trigolion.
4. Mae gallu Cymru i roi 'croeso cynnes' yn dibynnu ar ei thrigolion. Felly, mae angen i weithgarwch ymgysylltu â thrigolion chwarae rhan ganolog mewn strategaeth twristiaeth.
5. Gall ymestyn polisïau hygyrchedd i gynnwys twristiaid a thrigolion ddod â manteision.

**Cyflwyniad**

Mae'r astudiaeth achos yn ddull ymchwilio cyffredin mewn astudiaethau o dwristiaeth.[5] Mae'r dull yn sicrhau dealltwriaeth fwy cyd-destunol o'r ffordd y gall polisi weithio yn ymarferol; gall roi cipolwg inni o'r ffordd y mae eraill wedi mynd i'r afael â phroblemau mewn sefyllfa go iawn. Yma, mae'n ein galluogi i feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae ardal arall wedi defnyddio teimladau trigolion yn eu strategaethau a'u harferion twristiaeth. Gan nad yw Cymru wedi mynd ati eto i

[5] Gweler: Case studies in tourism research: A state-of-the-art analysis & Case Study as a Research Method in Hospitality and Tourism Research: A Systematic Literature Review

gasglu data am agweddau trigolion at dwristiaeth, mae'r achos a gyflwynir yma yn cynnig cyfle i fyfyrio ar fanteision ac anfanteision gwahanol ddulliau, nodi cyfleoedd ac ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig.

Mae'r ffocws hanesyddol gul ar dwristiaeth fel ffactor sy'n ysgogi twf economaidd yn golygu bod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n gyflym ledled Ewrop. Mae hyn wedi rhoi gwasanaethau a seilwaith lleol o dan bwysau, gan effeithio ar fywydau trigolion bob dydd. Ac eto, yn y sector twristiaeth, mae trigolion yn rhan hanfodol o'r cynnyrch. Bydd poblogaeth o drigolion digroeso yn amharu ar brofiadau ac adolygiadau ymwelwyr ac yn effeithio ar nifer yr ymweliadau newydd a'r ymweliadau dychwel. Nododd Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 mai'r *teimlad o groeso* oedd un o'r ffactorau ysgogi allweddol o ran boddhad twristiaid (yn cynnwys ymwelwyr o'r DU ac ymwelwyr tramor). Ond bydd enw da Cymru fel gwlad groesawgar yn diflannu'n gyflym os bydd nifer y twristiaid yn cynyddu ac nad oes seilwaith digonol yn bodoli i ddeall teimladau trigolion.

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i strwythuro'n dair rhan. Mae adran un yn edrych ar y ffordd y mae Fflandrys wedi ystyried trigolion yn ei strategaethau a'i pholisïau twristiaeth. Mae adran dau yn edrych ar yr arolygon sy'n canolbwyntio ar drigolion y mae wedi'u cynnal. Mae adran tri yn rhoi rhai enghreifftiau o brosiectau twristiaeth sy'n canolbwyntio ar drigolion. Dewiswyd Fflandrys yn bwnc astudio yn bennaf oherwydd ei dull arloesol ac unigryw o ymdrin â strategaeth twristiaeth. Yn Fflandrys, ystyrir bod twristiaeth yn adnodd ar gyfer datblygu cynaliadwy, gyda ffocws hirdymor yn newid y syniadaeth o faint i ansawdd. Fel rhan o'r newid hwn, mae trigolion wedi dod yn rhanddeiliad pwysig mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae sefyllfa Fflandrys hefyd yn debyg i un Cymru. Fel Cymru, mae sefydliadau rheoli cyrchfannau yn Fflandrys yn gweithio ar lefel is-wladwriaethol, gyda chymwyseddau datganoledig mewn gwahanol ardaloedd. Gall hyn effeithio ar y ffordd y caiff cyrchfan ei marchnata ac ar y strwythurau y mae eu sefydliadau rheoli cyrchfannau yn gweithredu drwyddynt. Mae'r ddwy hefyd yn rheoli ardaloedd daearyddol amrywiol lle y ceir lefelau gwahanol iawn o dwristiaeth.

Cynhaliwyd yr astudiaeth achos hon yn bennaf drwy ymchwil ddesg, a ategwyd wedyn â gwybodaeth anecdotaidd o drafodaethau byr â staff sefydliadau rheoli cyrchfannau yn Fflandrys.

**Nodau strategol VISITFLANDERS**

VisitFlanders yw'r sefydliad rheoli cyrchfannau sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a chydgysylltu twristiaeth ledled Fflandrys. Mae gan ardaloedd twristaidd poblogaidd, megis Antwerp a Bruges, eu byrddau twristiaeth mwy lleol eu hunain (e.e. Visit Antwerp neu Visit Bruges) sy'n hwyluso gwaith cyrchfan-benodol. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn canolbwyntio'n benodol ar waith VisitFlanders er mwyn deall sut y caiff trigolion eu hymgorffori mewn twristiaeth ar lefel strategol uwch.


Mae VisitFlanders yn nodi ei uchelgeisiau yn 'Travel to Tomorrow: recommendations for tourism policy 2019-2024'. Mae'r memorandwm hwn yn nodi ei argymhellion ar gyfer datblygu Fflandrys fel cyrchfan yn yr hirdymor, yn ogystal â'i argymhellion ar gyfer twristiaeth ledled y byd mewn gwaith a wnaed ar ôl pandemig COVID-19.

> *“We have been traveling to tomorrow for a couple of years now, looking for a new kind of tourism, that can offer added value to all stakeholders involved: not just the visitors, but also residents, local entrepreneurs and the government at a certain place.”* [6]

Dechreuwyd ar y gwaith o lunio 'Travel to Tomorrow' tua diwedd 2017 drwy lansio ymarfer gwrando ar raddfa fawr a diwrnod wedi'i neilltuo ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Nod yr ymarfer gwrando oedd meithrin dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r hyn roedd ymwelwyr am ei gael o gyrchfan. Casglodd yr ymarfer hwn fwy na 1,600 o safbwyntiau a ddaeth i'r casgliad bod tair elfen graidd yn effeithio ar brofiadau teithio ymwelwyr, sef: dwyster y profiad, argaeledd gweithgareddau dilys a chyfarfod â phobl leol groesawgar. Yna, yn 2018, ystyriodd pum melin drafod y cysyniad o ‘gyrchfan sy'n ffynnu’. Dilynwyd hyn gan gyfweliadau a gweithdai ag arbenigwyr o'r diwydiant. Arweiniodd canfyddiadau hyn oll at gyhoeddi cylchgrawn a llyfr 'Travel to Tomorrow', a oedd yn nodi argymhellion polisi VisitFlanders yn glir.

[6] Travel To Tomorrow: The Book (Travel to Tomrorow)

Maent yn nodi y dylai nod strategol ganolog twristiaeth yn Fflandrys ganolbwyntio ar alluogi Fflandrys i ffynnu fel cyrchfan i drigolion, entrepreneuriaid a thwristiaid fel ei gilydd. Defnyddir y goeden Linden fel trosiad ar gyfer hyn, fel y dengys ffigur 1 isod.




*Ffigur 1Mae'r Goeden Linden yn esbonio gweledigaeth VisitFlanders ar gyfer cyrchfan sy'n ffynnu.*

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, nodir pedair blaenoriaeth allweddol: [7]

1. Er mwyn i gyrchfan ffynnu'n gynaliadwy, ni ddylid canolbwyntio ar ymwelwyr yn unig.
    a. Monitrwch sut a pham mae lleoliadau yn ffynnu ac addaswch bolisi yn unol â hynny er mwyn cyflawni'r nod o greu cymuned ffyniannus, nid dim ond twristiaid hapus.
    b. Mapiwch hanesion llawn effaith a all gael eu cyfleu gan bobl leol a'u datblygu'n naritifau ar gyfer Fflandrys gyfan.

[7] Travel to Tomorrow: Recommendations for Tourism Policy 2019-2024 (Toerisme Vlaanderen)

2. Er mwyn creu profiadau ystyrlon, caiff profiadau ymwelwyr llawn effaith eu sicrhau drwy gysylltu grwpiau diddordeb yn Fflandrys â grwpiau tebyg ledled y byd.
    a. Dechreuwch â phethau y mae pobl leol yn Fflandrys yn frwd amdanynt er mwyn datblygu naratifau sy'n apelio at grwpiau diddordeb dramor.
    b. Canolbwyntiwch ar ymgyrchoedd llawn effaith er mwyn annog twristiaeth sy'n seiliedig ar ddiddordebau yn hytrach na thwristiaeth dorfol.
3. Mae angen i wyliau fod yn hygyrch i bawb yn Fflandrys.
    a. Buddsoddwch yn *Iedereen Verdient Vakantie* (Rhwydwaith Mae Pawb yn Haeddu Gwyliau).
    b. Rhannwch yr hyn rydym yn ei ddysgu o hynny ledled y byd.
4. Mae angen dull gweithredu o ansawdd uchel ar gyfer Fflandrys gyfan er mwyn cynyddu'r effaith.
    a. Cefnogwch fusnesau twristiaeth sydd eisoes yn sefydledig er mwyn sicrhau y caiff arferion cynaliadwy eu rhoi ar waith.
    b. Gweithiwch gyda pholisi er mwyn cynyddu effaith camau gweithredu.
    c. Sicrhewch fod gwelliannau yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n ystyried trigolion, busnesau ac ymwelwyr.

Mae VisitFlanders yn dadlau, er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, fod angen newid ffordd o feddwl; yn lle ystyried mai twristiaeth yw'r nod terfynol, heddiw dylid ystyried bod twrisiaeth yn adnodd ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mewn cyfweliadau ag Elke Dens, cyfarwyddwr marchnata VisitFlanders, nodir bod hyn yn newid paradeim i'r diwydiant.[8] Mae Dens yn esbonio y gallai hyn fod yn anodd i sefydliadau rheoli cyrchfannau i ddechrau am fod cyfalafiaeth a phrynwriaeth yn aml wedi tanseilio ymdrechion i symud tuag at fodelau twristiaeth cynaliadwy neu adfywiol. Fodd bynnag, mae VisitFlanders yn hyderus mai dim ond drwy newid sy'n sicrhau bod anghenion trigolion, busnesau a rhanddeiliaid lleol yn cael eu hystyried, y caiff cyrchfan ffyniannus a chynaliadwy ei chreu. Mae'r dull hwn o weithredu yn

[8] For Visit Flanders, Long term destination development is the definition of success (Destination Think) a A Paradigm Shift from Quantity to Quality Tourism: Interview with Visit Flanders' Marketing Director Elke Dens (Travel to Tomorrow)

adlewyrchu tueddiadau academaidd diweddar mewn astudiaethau o dwristiaeth. Fel y crynhoa Nuets et. al (2021);

> “while the potential macro-economic benefits of tourism development have been well-established, the negative social effects of uninhibited growth have received increased attention in the last decade, emphasizing the central role of communities in the search for a sustainable balance in tourism.”[9]

Gellir gwneud cymariaethau â Chymru yma. Mae strategaeth Croeso i Gymru (2020-2025) hefyd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd a thyfu twristiaeth ‘er budd Cymru’ – sy'n golygu y dylid ystyried trigolion, ymwelwyr a busnesau. At hynny, er mwyn i Gymru gyflawni ei nod strategol o roi ‘croeso cynnes’ i bob ymwelydd, yn ddiau bydd angen osgoi teimladau negyddol tuag at ymwelwyr ymhlith trigolion. Mae Fflandrys yn bwriadu monitro barn ymwelwyr, gwrando ar eu hanesion a'u hintegreiddio yn eu cynlluniau ar gyfer twristiaeth, a gallai hyn roi ysbrydoliaeth o ran sut i gynnwys cymunedau lleol yng Nghymru yn y sector twristiaeth yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 hefyd yn gofyn am gydbwyso twf economaidd y diwydiant twristiaid a llesiant ehangach y wlad. Unwaith eto, mae'n bosibl bod gwersi i'w dysgu yma o ddull Fflandrys o wrando a chysylltu â thrigolion.

**Arolygon Trigolion**

Mae VisitFlanders yn nodi'n glir, er mwyn cyflawni ei nodau strategol, fod angen i wrando ar drigolion fod yn un o egwyddorion canolog ei ymarfer. I'r perwyl hwn, dechreuwyd cynnal arolygon lleol helaeth o drigolion yn 2016 yn y dinasoedd celfyddydol poblogaidd (Antwerp, Bruges, Gent, Mechelen a Leuven), sydd bellach wedi'u hymestyn ymhellach i gynnwys trefi eraill hefyd.[10] Mae Peter De Wilde, Prif Swyddog Gweithredol VisitFlanders, yn nodi ei bod yn bwysig ailgynnal yr arolygon hyn, gyda phob un o'r dinasoedd celfyddydol yn arolygu eu trigolion bob dwy flynedd. Er i ganfyddiadau o'r dinasoedd celfyddydol nodi bod y rhan fwyaf o drigolion yn

[9] Resident Support for Tourism Development: Application of a Simplified Resident Empowerment through Tourism Scale on Developing Destinations in Flanders (MDPI)
[10] Peter De Wilde of VISITFLANDERS on the Future of Tourism, Purposeful Marketing and Sustainable Destinations (Sustainability Leaders United)

cefnogi twristiaeth, drwy ailgynnal yr arolygon nodwyd bod nifer y bobl a oedd yn credu bod ansawdd eu bywyd wedi dirywio oherwydd twrisitaeth wedi cynyddu 19% dros gyfnod o ddwy flynedd.[11] Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer yr ymatebwyr a nododd fod twristiaeth wedi peri anghyfleustra iddynt, yn enwedig o ran gorlenwi.[12] Yn yr arolygon mwy diweddar a gynhaliwyd yn 2021, mae Fflandrys wedi cynnwys cwestiwn am y pandemig ac wedi cofnodi cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion am orlenwi, er i nifer yr ymwelwyr leihau'n sylweddol rhwng arolwg 2019 ac arolwg 2021.

Cynhaliwyd yr arolygon hyn gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol, y rhoddir enghreifftiau o ddau ohonynt isod.

Cynhaliwyd y cyntaf gan ddefnyddio Mynegai Teimladau Trigolion TRAVELSAT a ddatblygwyd gan TCI Research. Mae'r mynegai hwn yn darparu gwybodaeth am farn cymunedau lleol am dwristiaeth yn eu hardal leol. Roedd yr arolwg safonedig hwn yn gallu nodi ble a phryd roedd teimladau trigolion yn newid, a oedd trigolion yn credu bod manteision twristiaeth yn drech na'r anfanteision a rhai o agweddau aflonyddol allweddol twristiaeth leol (h.y. costau byw uchel, sbwriel a gorlenwi). Am ei fod yn gynnyrch poblogaidd yn fyd-eang, gyda holiadur trigolion sydd, fwy neu lai, yn un safonedig, mae hefyd yn bosibl i Fflandrys feincnodi ei chanlyniadau yn erbyn ei chystadleuwyr. O ystyried y dicter tuag at dwristiaeth a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar ymhlith trigolion mewn ardaloedd megis Barcelona a Fenis, gall meincnodi fod yn adnodd arbennig o ddefnyddiol wrth geisio nodi a yw problemau yn ymwneud â lle penodol neu a ydynt yn cael eu hwynebu'n ehangach.

Yr ail ddull, sy'n un mwy arbrofol, yw prosiect arolwg RETS, a hwyluswyd gan Visit Bruges a Phrifysgol MODUL yn Fienna.[13] Defnyddiodd model arolwg RETS i ganolbwyntio ar dair agwedd allweddol ar Deimladau Trigolion, sef:

1. Grymuso seicolegol (a yw twristiaeth yn cynyddu ymdeimlad pobl o falchder yn eu hardal leol)

---

[11] Tourists still welcome in Flemish cities, up to a point (The Bulletin)
[12] Flemish Residents Art Cities Still Welcome Tourists (NECSTouR)
[13] Resident Attitudes Towards Tourism in Bruge (Toerisme Vlannderen)

2. Grymuso cymdeithasol (a yw manteision cymdeithasol twristiaeth yn cael eu teimlo'n lleol)
3. Grymuso gwleidyddol (a yw trigolion yn credu bod pobl ym maes cynllunio twristiaeth yn gwrando ar eu barn)

Yn ôl Vincent Nijs, a gynhaliodd yr arolwg yn Bruges, mae RETS yn fframwaith sy'n ein helpu i ddiffinio ac arolygu gwahanol agweddau ar safbwyntiau trigolion a nodi'r cydberthnasau rhwng yr agweddau hyn.[14] Felly, nid yn unig y mae methodoleg RETS yn nodi a oes cefnogaeth ymhlith trigolion, mae hefyd yn helpu i daflu goleuni ar y ffactorau ysgogi sydd wrth wraidd y gefnogaeth hon.

Dengys y canfyddiadau fod cryn gefnogaeth i dwristiaeth yn Bruges, gyda 3 o bob 4 preswylydd yn credu bod twristiaeth yn bwysig i'w hardal a 7 allan o bob 10 yn credu bod y manteision yn drech na'r anfanteision. Nododd yr arolwg hefyd, er bod cryn gefnogaeth i dwristiaeth ar hyn o bryd, fod trigolion yn pryderu y bydd cynnydd mewn twristiaeth yn troi'r pendil, sy'n golygu y gallai'r anfanteision ddechrau mynd yn drech na'r manteision yn fuan. At hynny, llwyddodd Nijs i addasu'r fethodoleg i ganolbwyntio ar broblemau cyfredol mwy lleol – yn yr achos hwn gan edrych ar deimladau trigolion tuag at eiddo AirBnB yn Bruges. Roedd hon yn broblem leol a oedd yn cael mwy a mwy o sylw negyddol yn y wasg ar y pryd. Yn ddiddorol ddigon, dangosodd dull RETS fod gwahaniaeth rhwng y teimladau a fynegwyd yn y wasg a theimladau'r cyhoedd, gyda'r canlyniadau yn nodi mai dim ond 14% o drigolion a oedd yn rhoi bai ar AirBnB am gostau byw cynyddol ac mai dim ond 5% o drigolion a oedd yn credu bod presenoldeb y cwmni yn Bruges yn achosi niwsans. O ran y ffactorau ysgogi ar gyfer cefnogaeth i dwristiaeth, nodwyd bod cysylltiad cryf rhwng ystyried eich bod yn ddinesydd balch o Bruges a chefnogi twristiaeth, gydag 8 o bob 10 ymatebydd yn nodi eu bod yn ymfalchïo yn eu cartref a'u bod yn croesawu ymwelwyr. Nododd dau o bob tri ymatebydd hefyd eu bod am ymgysylltu'n fwy â thwristiaid; nododd 70% o drigolion eu bod yn awyddus i gymryd rhan mewn prosiectau twristiaeth yn eu hardal leol, gyda thrigolion yng nghanol y ddinas a thrigolion iau yn arbennig o frwd dros wneud hynny.

---

[14] [Resident Support for Tourism Development: Application of a Simplified Resident Empowerment through Tourism Scale on Developing Destinations in Flanders (MDPI)]

Nid Nijs yw'r unig un i fabwysiadu dull RETS yn Fflandrys. Defnyddiodd astudiaeth academaidd a gynhaliwyd gan Neuts et. al (2021) RETS hefyd ond, yn wahanol i Nijs, roedd yn canolbwyntio ar ‘dandwristiaeth’ yn rhanbarth Scheldeland yn Fflandrys Fel Nijs, gwnaethant nodi fod cefnogaeth gyffredinol i dwristiaeth ymhlith y trigolion ac, wrth ddadadeiladu'r ffactorau ysgogi ar gyfer y gefnogaeth hon, gwnaethant nodi y gellir cymell trigolion a sicrhau eu cefnogaeth i dwristiaeth, nid drwy fentrau economaidd, ond drwy falchder diwylliannol a rhwydweithiau cymdeithasol. Felly, mae cysylltiad cryf rhwng grymuso cymdeithasol/seicolegol a chefnogaeth gyffredinol i dwristiaeth ac nid yw grymuso economaidd personol yn ffactor ysgogi pwysig. Nododd yr astudiaeth hefyd mai lle roedd twristiaeth yn fwy datblygedig yr oedd y lefelau uchaf o gefnogaeth i'w cael mewn ardaloedd, sy'n golygu bod cynnydd mewn twristiaeth yn arwain at gynnydd mewn cefnogaeth am fod trigolion yn fwy ymwybodol o'r manteision sy'n deillio o dwristiaeth. Mae hyn yn awgrymu y gall tanddatblygu neu orddatblygu strwythurau twristiaeth arwain at deimladau negyddol. Yn hollbwysig, mae Nuets et. al yn nodi sut mae eu canfyddiadau yn cefnogi strategaethau twristiaeth sy'n ceisio cynnwys pobl leol yn y camau datblygu a gweithredu.

Dengys y ddau ddull arolygu a fabwysiedir yma fod ffyrdd gwahanol o gofnodi teimladau trigolion. Ar y naill law, mae dull TCI yn darparu ar gyfer meincnodi data drwy fodel mwy safonedig, ond mae cyfyngiadau ar y cymaryddion. Yma, mae meincnodi yn dibynnu ar y data sydd ar gael i TCI. Gallai hyn fod yn bwysig wrth ystyried dull Cymru o wrando.


Dangosodd cyfweliadau â rhanddeiliaid ar lefel strategol (gweler adran 3) y byddai'n fwy defnyddiol meincnodi yn erbyn cymdogion domestig ym Mhrydain Fawr. Mae angen ystyried a yw'r data hynny ar gael i TCI os bwriedir mabwysiadu'r dull hwn. Ar y llaw arall, cafodd model RETS gan Nijs ei lunio gan ddechrau o'r dechrau, sy'n golygu ei fod yn haws i'w addasu. Fe'i lluniwyd hefyd i ddangos y ffactorau ysgogi ar gyfer teimladau trigolion, sef newidyn pwysig i lunwyr polisi, sefydliadau rheoli cyrchfannau a llywodraethau lleol ei ddeall. At hynny, gall dull RETS ganolbwyntio mwy ar rymuso ac ymgysylltu â thrigolion. Wrth wneud hynny, mae'n nodi nad yw manteision economaidd yn dylanwadu ar farn trigolion gymaint ag y mae ymdeimlad o rymuso yn dylanwadu arni (p'un a yw'n rymuso cymdeithasol, gwleidyddol neu

seicolegol). Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o berthnasol i Fflandrys am eu bod yn ategu eu dadl y bydd integreiddio trigolion mewn prosesau twristiaeth yn creu model twristiaeth mwy cynaliadwy o ansawdd uwch.

## Enghreifftiau o Ymgysylltu â Thrigolion

Isod ceir tair enghraifft fer o brosiectau twristiaeth sydd wedi ymgorffori pobl leol. Dengys y tair y ffordd y mae Fflandrys wedi mynd ati i geisio ymgysylltu â thrigolion a'u grymuso mewn ymarfer twristiaeth.

### Ask Antwerp




*Ffigur 2 postiad o dudalen Ask Antwerp ar Facebook*

> *"Tourists can use our Ask Antwerp app to talk to locals and ask them where they can sample the best chocolate or beer in Antwerp, for example. It's a great way of guiding tourists to places in the city which they might never discover otherwise."*[15]

Mae platfform Ask Antwerp, a lansiwyd ar ddechrau 2019 gan Visit Antwerp, yn cysylltu ymwelwyr â'r ddinas â thrigolion er mwyn rhoi profiad mwy dilys o'r gyrchfan iddynt. Er iddo gael ei farchnata fel ap, lansiwyd y prosiect yn 2019 fel swyddogaeth sgwrsio ar Facebook. Esboniodd Visit Antwerp fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud

[15] Balanced, sustainable tourism and gross national happiness in Bhutan and Flanders (Travel to Tomorrow)

am ei fod yn awyddus i ddileu'r rhwystr diangen o orfodi ymwelwyr i lawrlwytho rhywbeth newydd ar gyfer eu taith yn unig.[16] Roedd y swyddogaeth sgwrsio yn cael ei staffio gan drigolion lleol bob amser, gan sicrhau y byddai ymwelwyr yn siarad â pherson go iawn ac nid sgwrsfot. Roedd mwy na 40 o drigolion wedi gwirfoddoli i weithio ar y platfform sgwrsio, gydag 20 o wirfoddolwyr gweithgar iawn. Er mwyn recriwtio trigolion cynhaliodd Visit Antwerp gystadleuaeth gymhellion reolaidd.

Drwy ganolfannau croeso y cafodd y platfform ei farchnata'n bennaf, ond cafodd ei hysbysebu mewn amgueddfeydd, gwestai, bwytai ac atyniadau allweddol i dwristiaid hefyd. Yn ôl tîm digidol y sefydliad rheoli cyrchfannau, cafodd y cynllun dderbyniad da gan ymwelwyr, gyda nifer o ymholiadau yn cael eu cyflwyno bob dydd. Fodd bynnag, nododd y tîm digidol fod y niferoedd hyn yn amrywio yn dibynnu ar ba aelodau o staff a oedd yn gweithio yn y canolfannau croeso, sy'n awgrymu mai'r canolfannau hyn oedd y prif ffynonellau gwybodaeth am y platfform. Nododd y gwirfoddolwyr fod y rhan fwyaf o ymholiadau yn ymwneud â bwyd a diod; h.y. ble galla i ddod o hyd i siocled o Wlad Belg neu ble galla i gael pryd da o fwyd?

Roedd cynlluniau i ymestyn y platfform ond, ar ddechrau 2020, bu'n rhaid atal y cynllun dros dro oherwydd newidiadau i reolau preifatrwydd Facebook. Nododd Visit Antwerp ei fod yn bwriadu ail-lansio'r prosiect ond ei fod yn dal i chwilio am blatfform addas. Yn y cyfamser, mae ei wefan yn hysbysebu'r ffaith y gall ymwelwyr ddefnyddio'r ap 'Spotted by Locals', sef ap preifat sy'n defnyddio trigolion sydd wedi gwirfoddoli i weithredu fel ‘sbotwyr’ i argymell eu hoff fannau yn y ddinas i ymwelwyr.[17] Mae'r ap ar gael mewn mwy na 60 o ddinasoedd ledled y byd.

### Digwyddiadau i Goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf

Rhwng 2014 a 2018 trefnwyd llawer o ddigwyddiadau coffáu i'w cynnal yn Fflandrys er mwyn nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Felly, roedd swyddfeydd twristiaeth lleol, yn enwedig yng Ngorllewin Fflandrys, yn rhagweld y byddai nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod o ddwy flynedd. Lluniodd y swyddfeydd ymgyrch farchnata ar gyfer y digwyddiadau coffáu hyn a dechrau

---

[16] Daw'r holl wybodaeth o drafodaethau â thîm digidol Visit Antwerp a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2022.
[17] Spotted by Locals Antwerp - Visit Antwerp (visitantwerpen.be)

cynllunio er mwyn sicrhau y gallent ddelio â'r problemau o ran capasiti y byddai'r nifer cynyddol o ymwelwyr yn eu creu.

Yn fuan ar ôl lansio'r ymgyrch, dechreuodd y cyfryngau feirniadu sefydliadau rheoli cyrchfannau am orelwa ar ddigwyddiad trasig. Mynegodd trigolion lleol eu pryderon hefyd ynghylch ansensitifrwydd yr ymgyrchoedd hyn. Mewn ymateb, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws gyda thrigolion lleol yn y rhanbarthau yr effeithiwyd arnynt er mwyn nodi sut y dylai'r canmlwyddiant gael ei nodi, yn eu barn nhw, a sut y gellid ei rannu mewn ffordd barchus â'r ymwelwyr rhyngwladol disgwyliedig. Arweiniodd y grwpiau ffocws hyn at fentrau dan arweiniad dinasyddion a hwyluswyd gan swyddfeydd twristiaeth lleol.

Cynhaliodd rhanbarth Westhoek un o'r mentrau hyn, sef y Partneriaid Coffáu ('Remembrance Partners'). [18] Gwnaethant lansio rhaglen hyfforddiant ar y Rhyfel Byd Cyntaf, a luniwyd ac a gynhaliwyd gan drigolion, i'r rhai a oedd yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth lleol, er mwyn sicrhau bod ymwelwr â'r rhanbarth yn cael profiad parchus a oedd yn seiliedig ar wybodaeth. Darparodd y rhaglen hyfforddiant i staff o swyddfeydd ac amgueddfeydd, yn ogystal â thywyswyr hanesyddol a pherchenogion busnesau lletygarwch. Nod yr hyfforddiant oedd addysgu staff am y digwyddiadau allweddol yn Westhoek yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cymerodd mwy na 200 o staff ran yn y fenter. Fel rhan o fenter arall, ffurfiodd cannoedd o drigolion lleol orymdaith goffáu â ffaglau gyda'r cyfnos ar hyd hen linell ryfel. Fel rhan o fenter arall, cynigiwyd hadau Pabi i ymwelwyr eu plannu ar ôl iddynt ddychwelyd i'w gwledydd cartref. Anogwyd ymwelwyr i rannu lluniau o'u pabïau blodeuog ar dudalen goffaol ar Facebook.

Digwyddodd y canmlwyddiant hwn cyn i nodau strategol presennol 'Welcome to Tomorrow' cael eu nodi, ond roedd yn enghraifft ddylanwadol o'r ffordd y dylai gwaith rheoli twristiaeth da sicrhau y darperir ar gyfer ymgysylltu â thrigolion o'r cychwyn cyntaf. Yn yr achos hwn, gorfodwyd swyddfeydd twristiaeth lleol i fabwysiadu model adweithiol. Byddai ymgysylltu â thrigolion yn gynharach wedi nodi'r problemau hyn ynghynt a gallai fod wedi osgoi'r sylw negyddol yn y wasg.

[18] Remembrance Partners Flanders Fields (Flanders Fields)

**Iedereen Verdient Vakantie (Rhwydwaith Mae Pawb yn Haeddu Gwyliau)[19]**

Un o gonglfeini pwysig strategaeth twristiaeth VisitFlanders yw sicrhau bod y gwaith y mae'n ei wneud yn agored ac yn hygyrch i bawb. Felly, nod Rhwydwaith Mae Pawb yn Haeddu Gwyliau yw cynnig gwyliau neu dripiau undydd i bobl mewn bandiau incwm isel sy'n byw yn Fflandrys. Cynhelir y rhwydwaith gan Tourism Flanders, ond mae'n cynnwys grŵp o sefydliadau (cyhoeddus a phreifat) sy'n cydweithio i gynnig prisiau gostyngol cynaliadwy i'r rhai sy'n bodloni'r trothwy. Lansiwyd y rhwydwaith yn 2001 gyda gwyliau i 752 o bobl ac erbyn 2021 roedd yn gallu helpu 144,305 o drigolion i gael tripiau undydd a gwyliau yn Fflandrys. Gwnaethant ddisgrifio eu cenhadaeth fel a ganlyn:

> *"We believe in the positive effects of holidays and want everyone to be able to experience them. Leisure and tourism are important for body and mind. Someone who feels good about himself functions better. Someone who feels valued looks positively at society."*

Mae Tourism Flanders yn esbonio bod y rhaglen yn ffordd bwysig o gefnogi polisïau datganoledig, megis Ordinhad Twristiaeth i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyfle Cyfartal, Cynllun Polisi Ieuenctid Fflandrys, Cynllun Gweithredu Fflandrys ar gyfer Trechi Tlodi a Chytundeb Clymblaid Fflandrys. Er bod hwn yn ddull gwahanol iawn i gyfranogiad trigolion mewn twristiaeth, mae'n enghraifft dda o'r ffordd y gall rhaglen sy'n canolbwyntio ar hygyrchedd ar gyfer gwahanol grwpiau demograffig hefyd gael effaith o ran grymuso trigolion. Mae model RETS yn dadlau bod trigolion mwy hyddysg fel arfer yn fwy balch, yn fwy croesawgar ac yn fwy parod i dderbyn ymwelwyr i'r ardal. Mae angen ymchwil empirig i gadarnhau a fyddai gwella hygyrchedd i atyniadau lleol yn creu poblogaeth leol hapusach sy'n ymgysylltu'n fwy ag ymwelwyr ac sy'n fwy parod i'w derbyn.

**Crynodeb**

1. Rhaid i wrando fod yn un o'r camau cyntaf yn y broses. Heb nodi teimladau cyffredinol poblogaeth at dwristiaeth yn gyntaf, a sut yr hoffent i bobl ymgysylltu â nhw/a ydynt am i bobl ymgysylltu â nhw, mae'n anochel y bydd

[19] Mission and Vision (Everyone Deserves a Holiday)

pob strategaeth yn troi'n un adweithiol (megis fel y digwyddodd yn achos dathliadau'r canmlwyddiant yn Fflandrys), yn hytrach na rhagweithiol. At hynny, mae'r fethodoleg arolygu yn effeithio ar yr hyn a ddysgir. Mae arolygon safonedig â chwestiynau mwy cyffredinol (h.y. arolwg TRAVELSET TCI a ddefnyddiwyd yn Fflandrys), yn ei gwneud yn bosibl i ardal nodi teimladau cyffredinol ei phoblogaeth a meincnodi eu hunain yn erbyn ffactorau allweddol. Fel arall, gall arolygon a luniwyd gennych chi eich hunain gael eu haddasu er mwyn diwallu anghenion lleol ardal (megis arolwg RETS a all ganolbwyntio ar broblemau cyfredol a dangos rhai o'r ffactorau ysgogi ar gyfer cefnogaeth trigolion).

2. Nid yw mwy o dwristiaeth yn well twristiaeth; Yma, mae Fflandrys yn newid y paradeim i ffwrdd oddi wrth faint tuag at ansawdd ac, felly, mae'n dadlau bod y manteision cymdeithasol a diwylliannol a ddaw i'w thrigolion yn sgil hyn yr un mor bwysig â'r ffactorau economaidd.
3. Mae polisi cyrchfannau a thwristiaeth cynaliadwy yn cydnabod yr angen i edrych y tu hwnt i ffactorau amgylcheddol yn unig. Mae Fflandrys yn awgrymu bod angen i farn trigolion fod wrth wraidd y broses o wneud dewisiadau cynaliadwy; heb gefnogaeth trigolion ni fydd yr un cynllun/prosiect/strategaeth twristiaeth yn para. Os ydym am fod yn gynaliadwy, rhaid inni weithio <u>gyda</u> chymunedau, nid yn eu herbyn, ac nid ochr yn ochr â nhw hyd yn oed.
4. Mae gallu Cymru i roi 'croeso cynnes' yn dibynnu ar agweddau ei thrigolion at dwristiaeth. Mae angen sicrhau bod gwrando ar drigolion ac ymgysylltu â nhw yn un o egwyddorion canolog y strategaeth. Mae angen ystyried syniadau ynglŷn â chyd-greu a grymuso trigolion ar gamau cynnar meddwl yn strategol a gweithredu. O gofio mai 2 o'r 5 ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yw **cynnwys** a **chydweithio**, mae Cymru mewn sefyllfa gref i roi'r math hwn o fodel twristiaeth ar waith. Mae sawl ffordd o ymdrin â'r model hwn sy'n ymgysylltu'n fwy â thrigolion, fel mae achos Fflandrys yma wedi'i ddangos. Hen ffordd o weithio yw cynnal cyfarfodydd cyffredinol mewn neuaddau pentref; heddiw gellir ymgysylltu â phobl mewn sawl ffordd ac ar wahanol lefelau. Gall prosiectau fod yn rhai lleol iawn, megis dathliadau'r canmlwyddiant, neu'n rhai cenedlaethol megis rhwydwaith Mae Pawb yn Haeddu Gwyliau.

5. Gall ymestyn strategaethau hygyrchedd i gynnwys twristiaid a thrigolion ddod â manteision. Fel y dengys Fflandrys yma, gallai strategaethau edrych yn ehangach ac ystyried sut y gallant sicrhau bod cyfleusterau yn fwy hygyrch i bobl leol hefyd. Gall atyniad sydd hefyd yn hygyrch i bobl leol gynyddu'r ymdeimlad o falchder yn yr ardal leol a sicrhau mwy o gefnogaeth ymhlith dinasyddion.

**Adran 3: Cyfweliadau â rhanddeiliaid**

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig rhwng mis Ebrill 2022 a mis Gorffennaf 2022 ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Awdurdod Lleol lle y ceir lefelau uchel o dwristiaeth, ac uwch-aelodau o staff Llywodraeth Cymru. Nod y cyfweliadau oedd casglu'r wybodaeth roedd ei hangen i ddatblygu achos dros ddefnyddio'r arolwg ymwelwyr a'r arolwg trigolion. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r adborth sy'n ymwneud â'r arolwg trigolion. Wrth weithio am yn ôl, a nodi pa ddata yr hoffai rhanddeiliaid eu cael a'u defnyddio, gellir llunio arolwg mwy cadarn sydd wedi'i lywio gan randdeiliaid er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r ymatebion a gofnodwyd a nodwyd y themâu allweddol canlynol:

- Manylder data
- Addasu
- Meincnodi
- Rhoi Gwybod am Ddata
- Natur y Data
- Ymgysylltu â Thrigolion

**Manylder data**

Trafodwyd faint o fanylion y mae angen eu cael o'r data yn aml gan randdeiliaid ac mae'n anochel bod barn rhanddeiliaid yn amrywio rhywfaint yn dibynnu ar natur eu gwaith; roedd staff Llywodraeth Cymru yn tueddu i bwysleisio pwysigrwydd nodi teimladau cyffredinol ledled Cymru – h.y. dealltwriaeth o agweddau trigolion at dwristiaeth ledled Cymru er mwyn helpu i bennu targedau a llywio strategaethau yn y

dyfodol. Fodd bynnag, byddai'r dull hwn o weithredu yn gofyn am sampl sy'n ddaearyddol gynrychioliadol o Gymru gyfan. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol mapio capasiti cynnal (er enghraifft, faint o ymwelwyr y gallai ardal ddarparu ar eu cyfer o ran lefelau deiliadaeth a meintiau torfeydd) a phroblemau ‘cyfredol’ mewn cyrchfannau allweddol i dwristiaid ledled Cymru (e.e. gorlenwi a glendid).

Roedd gan yr Awdurdod Lleol ddiddordeb mewn casglu data manylach. Pwysleisiwyd bod angen data ar lefel awdurdod lleol arno o leiaf ac, os yw'n bosibl, ddata ar lefel cyrchfannau. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod gan rai awdurdodau lleol ardaloedd adfywio dynodedig. Awgrymwyd y gellid defnyddio data manylach i ddarparu tystiolaeth ar y rhaglenni adfywio hyn. Esboniodd un awdurdod lleol, pe gallai gael data manylach, y byddai hynny'n helpu gyda'i DPAau.

Trafododd pob un o'r rhanddeiliaid fanteision ac anfanteision arolwg lleol iawn o gymharu â dull gweithredu i Gymru gyfan. Y consensws cyffredinol mai arolwg y gellid ei deilwra drwy opsiynau addasadwy a fyddai'n gweithio orau (e.e. tudalennau ailgyfeirio amodol). Byddai hyn yn arwain at arolwg sydd â data lleol ond a allai gael ei addasu i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru yn genedlaethol hefyd.

Cafodd y dull panel o samplu[20] ei herio/awgrymu gan rai rhanddeiliaid. Roedd staff Llywodraeth Cymru yn arbennig o'r farn y gallai fod ei angen os na allwn gasglu sampl gynrychioliadol gan ddefnyddio dulliau eraill. Cafodd paneli o ddefnyddwyr a phaneli hydredol eu hawgrymu (a'u beirniadu), sy'n awgrymu bod anghytundeb cyffredinol ynghylch pa mor ddefnyddiol ydynt.

Cafwyd trafodaeth i'r perwyl, er y gallai Llywodraeth Cymru roi arolygon rhyng-gipio ar ei gwefannau, petai awdurdodau lleol am gael data manylach, y byddai angen iddynt gymryd perchenogaeth o strategaethau marchnata yn eu hardaloedd eu hunain.

Roedd consensws cyffredinol mai dim ond cipolwg ar faterion ar adeg benodol y gallai'r arolwg ymwelwyr blaenorol ei ddarparu ac, felly, nad oedd modd gweithredu ar lawer o'r data. Pwysleisiodd pob un o'r ymatebwyr y byddai angen i unrhyw arolwg

[20]Mae panel o ddefnyddwyr yn cyfeirio at sampl gynrychioliadol o bobl a ddewiswyd gan sefydliad i roi iddo y safbwyntiau sydd eu hangen arno er mwyn gwneud ymchwil i ddefnyddwyr neu fusnesau. Ar y llaw arall, mae panel hydredol yn holi grŵp sefydlog o gyfranogwyr sawl gwaith dros gyfnod o amser er mwyn olrhain newidiadau yn y metrigau sy'n cael eu hastudio.

trigolion allu hwyluso casglu data manylach a/neu ddata hydredol er mwyn iddo gynhyrchu data y gellid gweithredu arno.

**Addasu**

Ar ôl i'r cyfwelydd arddangos dull parhaol digidol, roedd pob un o'r rhanddeiliaid yn awyddus i allu addasu agweddau penodol ar yr arolwg.

Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd, roedd yr opsiwn i ychwanegu cwestiynau y gellid eu mewnosod dros dro am ddiwrnodau cenedlaethol, gwyliau a digwyddiadau mawr (e.e. digwyddiadau mewn stadia neu ddigwyddiadau chwaraeon). Syniadau eraill a gyflwynwyd oedd y gellid casglu data ar broblemau sy'n ymwneud â thagfeydd, llygredd sŵn, problemau mynediad ac ati cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiadau hyn. Pwysleisiodd staff Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yr hoffent gael data ar y ffordd mae trigolion yn ymdopi mewn gwahanol ardaloedd sy'n boblogaidd gyda thwristiaid ar adegau prysur.

Nododd yr awdurdod lleol y byddai'n ddefnyddiol iawn casglu data ar lefel digwyddiadau – yn enwedig ar sut mae digwyddiadau yn ymgysylltu â thrigolion lleol. Awgrymwyd y gellid llunio mapiau gwres o lwybrau pobl sy'n mynd i ddigwyddiad cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad hwnnw er mwyn deall lle mae'r llwybrau traffig trwm a sut mae'r digwyddiad yn effeithio ar fusnesau lleol.

Esboniodd rhanddeiliaid o fewn Llywodraeth Cymru, ar lefel strategol, y byddai'r gallu i ychwanegu cwestiynau am ddigwyddiadau chwaraeon mawr sydd i'w cynnal yn arbennig o ddefnyddiol – gan gynnwys digwyddiadau na fyddant yn cael eu cynnal yng Nghymru ond y bydd Cymru yn cystadlu ynddynt. Rhoddwyd yr enghraifft ganlynol: ar hyn o bryd nid oes ganddynt y seilwaith i fynd allan i ofyn i drigolion beth yr hoffent ei gael ar gyfer Cwpan y Byd (e.e. sgriniau ac ardaloedd cefnogwyr). Mae'n bosibl y gallai'r arolwg hwn hwyluso hyn.

**Meincnodi**

Pwysleisiodd pob un o'r rhanddeiliaid bwysigrwydd casglu data y gellid eu meincnodi.

Trafodwyd y ffaith bod amrywiaeth fawr o ddata ar drigolion ar gael ar gyfer cyrchfannau i dwristiaid yn Ewrop. Fodd bynnag, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol y byddai'n llawer mwy defnyddiol petai modd meincnodi yn erbyn eu cymdogion/cystadleuwyr domestig – yn enwedig yr Alban a Chernyw. Nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n ddefnyddiol petai modd casglu ffactorau cadarnhaol a negyddol i'w meincnodi. Nododd rhanddeiliaid o fewn Llywodraeth Cymru hefyd fod meincnodi yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ymateb i straeon negyddol yn y cyfryngau.

**Rhoi gwybod am ddata**

Roedd pob un o'r rhanddeiliaid yn barod iawn i dderbyn y syniad o ddangosfwrdd, sef platfform ar-lein a allai ddal yr holl ddata a chael ei ddefnyddio gan randdeiliaid pan fyddai angen rhywbeth arnynt. Roedd y dull hwn o weithredu yn arbennig o ddeniadol i awdurdodau lleol.

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o randdeiliaid pa mor ddefnyddiol fyddai cael data perthnasol, mwy cyfredol. Teimlwyd bod gormod o amser yn mynd heibio yn aml rhwng casglu data a'u cofnodi a bod pobl yn credu yn aml fod data yn rhy hen i'w defnyddio. Mewn byd delfrydol, roedd awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fel petaent am i ddiweddariadau mewn amser real fod ar gael iddynt drwy system ddangosfwrdd. Fel hyn, gallent ddeall beth oedd yn digwydd ar lawr gwlad mewn amser real.

Nododd rhanddeiliaid o fewn Llywodraeth Cymru y gallai fod angen crynodebau briffio ac adroddiadau misol/blynyddol o hyd ochr yn ochr â'r dangosfwrdd, gan y bydd angen crynodebau ac adroddiadau o hyd ar gyfer gwaith cynllunio yn y dyfodol a chyfarfodydd rheoli misol.

Trafodwyd y ffaith bod angen i gefn y platfform hwn gael ei gynllunio'n ofalus. E.e. ystyried a yw data penodol yn addas i'w defnyddio gan bob rhanddeiliad bob amser ac y gallai fod angen darparu hyfforddiant am ei bod yn bosibl nad oes gan bob rhanddeiliad y sgiliau i 'ddod o hyd' i'r data ei hun ar y platfform.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid o fewn awdurdodau lleol fod y ffordd y mae data yn cael eu cyflwyno yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran faint o ddefnydd y maent yn ei wneud ohonynt a gwnaethant ofyn yn benodol am ffeithluniau clir, gan esbonio eu bod wedi defnyddio data o'u harolwg trigolion blaenorol [eu hunain] mewn cyfarfodydd pan oedd ffeithluniau ar gael iddynt.

**Natur data**

Roedd pob un o'r rhanddeiliaid yn awyddus iawn i ddechrau casglu data ar deimladau trigolion at dwristiaeth yng Nghymru. Cafwyd nifer o sylwadau yn nodi bod diffyg data yn y maes hwn ar hyn o bryd.

Nododd pob un o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd eu bod o blaid symud i ddull o gasglu data sy'n un digidol i raddau helaeth. Nododd pob un ohonynt, petai hyn yn cynhyrchu data mwy cyfredol y gellid gweithredu arnynt, y byddai'r dull yn un defnyddiol iawn. Mynegodd pawb ddiddordeb yn y syniad o ymatebion amlgyfrwng (e.e. ymatebwyr i arolygon yn defnyddio fideos/lluniau/recordiadau sain i roi adborth), ond roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol gyda gallu dadansoddol staff.

Yn benodol, gallai rhanddeiliaid weld gwerth ymatebion amlgyfrwng ar gyfer strategaethau marchnata a brandio. Roeddent o'r farn y byddai data amlgyfrwng yn ddefnyddiol yn lleol ac ar lefel y llywodraeth. Mynegwyd rhywfaint o ddiddordeb hefyd yn y ffordd y gallai ymatebion amlgyfrwng weithio gydag elfen ddwyieithog arolwg.

Pwysleisiodd staff Llywodraeth Cymru fod angen iddynt glywed mwy gan drigolion am broblemau cyfredol - defnyddiwyd perchenogaeth ail gartrefi fel enghraifft, ochr yn ochr â gorlenwi a sbwriel. Pwysleisiodd rhanddeiliaid o fewn awdurdodau lleol y byddai'n ddefnyddiol petai'r arolwg yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, o gofio nodau'r strategaeth twristiaeth.

Nododd dau randdeiliad y ceir ymgripiad cwmpas ('scope creep') gyda'r math hwn o arolwg a'i bod yn bwysig ystyried y seilwaith digidol sydd ei angen i ddarparu ar gyfer hyn i'r graddau y byddai angen i fethodoleg a phlatfform yr arolwg fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer y ceisiadau ychwanegol hyn.

**Ymgysylltu â thrigolion**

Gofynnwyd i randdeiliaid a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn ymchwilio i'r ffordd y gellid cynnwys trigolion mewn strategaeth twristiaeth neu brosiectau twristiaeth penodol.

Cafwyd ymatebion amrywiol i hyn, yr ymddengys eu bod yn dibynnu ar brofiadau mewn gwahanol rannau o Gymru. Roedd rhai o'r farn bod digon o seilwaith ar gael eisoes er mwyn cynnwys pobl leol tra roedd eraill o'r farn bod y maes hwn yn cael ei anwybyddu'n llwyr.

Roedd awdurdodau lleol yn barod iawn i dderbyn y syniad o gynnwys trigolion ar gam cynnar mewn cynlluniau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Roeddent yn hoffi'r syniad o sicrhau bod trigolion yn cymryd rhan mewn prosiectau ac ymgysylltu ag ymwelwyr.

Nododd un rhanddeiliad, ar lefel strategol, ei bod yn bwysig sicrhau bod modelau ar gyfer cynnwys trigolion ar waith. Gan fod hyn wedi'i gynnwys yn strategaeth *Croeso i Gymru*, mae angen ei ystyried.

Awgrymodd un rhanddeiliad fod angen inni sicrhau bod trigolion yn ymwybodol pa mor bwysig yw twristiaeth yng Nghymru - mae'n bosibl ei bod yn cael ei 'thanwerthu' i drigolion ar hyn o bryd. Rhoddwyd yr enghraifft ganlynol: mae nifer y bobl sy'n gweithio yn y diwydiant yn arbennig o uchel yng Nghymru. Awgrymwyd, petai trigolion yn gwybod hyn, y byddai ganddynt fwy o ddiddordeb mewn prosiectau twristiaeth lleol.

**Crynodeb**

a. Bydd nodi llwybr canol rhwng data ar lefel Cymru gyfan a data lleol yn bwysig. Un opsiwn yw mynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio cwestiynau/tudalennau ailgyfeirio amodol. Fodd bynnag, byddai cydweithio yn hanfodol i nodi'r data sydd eu hangen. Bydd nodi sut y gellir darparu data o ansawdd uchel ar y ddwy lefel hyn yn broses hirdymor. Fodd bynnag, mae'r cam peilot yn cynnig cyfle da i ddechrau treialu hyn.
b. Bydd ansawdd y data yn lleol yn dibynnu'n fawr ar gyfranogiad rhanddeiliaid lleol ac awdurdodau lleol. Os gallant gyfrannu at faint y sampl yn eu hardaloedd lleol, mae'n anochel y ceir data mwy manwl o ansawdd uwch.

c. Yn ystod cam peilot y prosiect hwn, bydd yn bwysig ystyried dulliau recriwtio gwahanol yn ogystal â chwestiynau gwahanol. Bydd hyn yn meithrin dealltwriaeth fwy hyddysg o'r ffordd y byddwn yn sicrhau bod maint sampl yn gynrychioliadol yn lleol ac yn genedlaethol.
d. Mae'n amlwg bod dull dangosfwrdd digidol yn boblogaidd ar gyfer cyflwyno data. Roedd cryn werth yn cael ei roi ar ddata y gellid gweithredu arnynt, data diweddar neu ddata mewn amser real a byddai seilwaith dangosfwrdd yn galluogi hyn.
e. At hynny, er mwyn sicrhau y gellir gweithredu ar y data sy'n cael eu casglu, mae angen gosod y sylfeini yn gynnar yn y broses er mwyn sicrhau bod sgwrs barhaus rhwng pob rhanddeiliad am y ffordd y mae data yn cael eu defnyddio. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r arolwg gael ei ddatblygu dros amser yn rhywbeth gwerthfawr i bawb.
f. Er i bwysigrwydd ymgysylltu â thrigolion gael ei gydnabod gan bawb, ymddengys fod diffyg dealltwriaeth o sut y gellid gwneud hyn yn ymarferol.

**Cyfeiriadau**

García, F.A., Vázquez, A.B. a Macías, R.C., 2015. Resident's attitudes towards the impacts of tourism. Tourism Management Perspectives, 13, tudalennau 33-40.

Andereck, K. L. a Vogt, C. A. 2000. The relationship between residents' attitudes toward tourism and tourism development options. *Journal of travel research* 39(1), tudalennau 27-36.

BADAMI, S. a GOODMAN, S., 2021, November. Empowering Communities: Future-Making through Citizen Ethnography. In Ethnographic Praxis in Industry Conference Proceedings (Cyf. 2021, No. 1, tudalennau 282-302).

Bimonte, S. a Faralla, V. 2016. Does residents' perceived life satisfaction vary with tourist season? A two-step survey in a Mediterranean destination. *Tourism management (1982)* 55, tudalennau 199-208.

Boley, B. B. a McGehee, N. G. 2014. Measuring empowerment: Developing and validating the Resident Empowerment through Tourism Scale (RETS). *Tourism Management* 45, tudalennau 85-94.

Choi, H. C. a Murray, I. 2010. Resident attitudes toward sustainable community tourism. *Journal of Sustainable Tourism* 18(4), tudalennau 575-594.

Cole, S. 2006. Information and Empowerment: The Keys to Achieving Sustainable Tourism. *Journal of Sustainable Tourism* 14(6), tudalennau 629-644.

Davies, A. a Simon, J., 2012. Citizen engagement in social innovation–a case study report. A deliverable of the project:"The theoretical, empirical and policy foundations for building social innovation in Europe"(TEPSIE), European Commission–7th Framework Programme, Brussels: European Commission, DG Research.

Deery, M. et al. 2012. Rethinking Social Impacts of Tourism Research: A New Research Agenda. *Tourism Management* 33, tudalennau 64–73.

Easterling, D. S. 2004. The Residents' Perspective in Tourism Research. *Journal of Travel & Tourism Marketing* 17(4), tudalennau 45-62.

Frohlick, S. a Harrison, J. 2008. Engaging ethnography in tourist research: An introduction. *Tourist Studies* 8(1), tudalennau 5-18.

Gursoy, D. a Rutherford, D. G. 2004. Host attitudes toward tourism: An Improved Structural Model. *Annals of Tourism Research* 31(3), tudalennau 495-516.